Senedd Cymru

**Y Pwyllgor Cydraddoldeb a Chyfiawnder Cymdeithasol**

# Sut y mae'n rhaid i ni i gyd chwarae ein rhan: dull iechyd y cyhoedd o atal yr epidemig trais ar sail rhywedd

Ionawr 2024



senedd.cymru

Senedd Cymru yw'r corff sy'n cael ei ethol yn ddemocrataidd i gynrychioli buddiannau Cymru a'i phobl. Mae'r Senedd, fel y'i gelwir, yn deddfu ar gyfer Cymru, yn cytuno ar drethi yng Nghymru, ac yn dwyn Llywodraeth Cymru i gyfrif.

Gallwch weld copi electronig o'r ddogfen hon ar wefan y Senedd:
**www.senedd.cymru/SeneddCydraddoldeb**

Gellir cael rhagor o gopïau o'r ddogfen hon mewn ffurfiau hygyrch, yn cynnwys Braille, print bras, fersiwn sain a chopïau caled gan:

**Y Pwyllgor Cydraddoldeb a Chyfiawnder Cymdeithasol**
**Senedd Cymru**
**Bae Caerdydd**
**CF99 1SN**

Ffôn: **0300 200 6565**
E-bost: **SeneddCydraddoldeb@senedd.cymru**
Twitter: **@SeneddCydraddoldeb**

**© Hawlfraint Comisiwn y Senedd 2024**
Ceir atgynhyrchu testun y ddogfen hon am ddim mewn unrhyw fformat neu gyfrwng cyn belled ag y caiff ei atgynhyrchu'n gywir ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol na difrïol. Rhaid cydnabod mai Comisiwn y Senedd sy'n berchen ar hawlfraint y deunydd a rhaid nodi teitl y ddogfen.

Senedd Cymru

**Y Pwyllgor Cydraddoldeb a Chyfiawnder Cymdeithasol**

# Sut y mae'n rhaid i ni i gyd chwarae ein rhan:

## dull iechyd y cyhoedd o atal yr epidemig trais ar sail rhywedd

Ionawr 2024

# Am y Pwyllgor

Sefydlwyd y Pwyllgor ar 23 Mehefin 2021. Ceir ei gylch gwaith yn:
**www.senedd.cymru/SeneddCydraddoldeb**

## Aelodau cyfredol y Pwyllgor:



**Cadeirydd y Pwyllgor:**
**Jenny Rathbone AS**
Llafur Cymru



**Jane Dodds AS**
Democratiaid Rhyddfrydol Cymru



**Altaf Hussain AS**
Ceidwadwyr Cymreig



**Sarah Murphy AS**
Llafur Cymru



**Ken Skates AS**
Llafur Cymru



**Sioned Williams AS**
Plaid Cymru

# Cynnwys

**Rhagair y Cadeirydd .......... 5**

**Argymhellion .......... 6**

**1. Cyflwyniad .......... 10**

Beth yw dull iechyd y cyhoedd? .......... 10

Nodyn ar yr iaith a ddefnyddir .......... 10

Y cefndir i ymchwiliad y Pwyllgor .......... 11

Lle i gael cyngor a chymorth .......... 12

Y Grŵp Cynghori a chydgynhyrchu .......... 14

**2. Ymateb i'r her .......... 15**

Anghydraddoldeb rhwng y rhywiau .......... 15

Dull y Llywodraeth .......... 16

Ein barn ni .......... 18

Ymgysylltu â dynion a bechgyn .......... 20

Ein barn ni .......... 22

Mater croestoriadol .......... 23

Ein barn ni .......... 26

Dull sy'n ystyriol o drawma .......... 27

Cymorth therapiwtig i blant a phobl ifanc .......... 29

Ein barn ni .......... 31

**3. Addysg, ymyriadau cynnar a mesurau atal .......... 33**

Ysgolion a lleoliadau addysg .......... 33

Dull ysgol gyfan .......... 34

Y Cod Addysg Cydberthynas a Rhywioldeb .......... 35

Ein barn ni .......... 37

Addysg uwch .......... 38

Ein barn ni ... 38

Ymyriadau gan y rhai sy'n dyst i drais ar sail rhywedd ... 39

Ein barn ni ... 41

Y cyfryngau cymdeithasol a chynnwys niweidiol ar-lein ... 41

Ein barn ni ... 42

Lleoliadau gofal iechyd ... 43

Gofyn a Gweithredu ... 45

Ein barn ni ... 47

**4. Gwneud mesurau atal yn gyfrifoldeb inni i gyd ... 49**

Gweithleoedd ... 49

Ein barn ni ... 50

Economi'r nos ... 51

Ein barn ni ... 54

Chwaraeon ... 54

Ymgyrchoedd codi ymwybyddiaeth ... 56

Ein barn ni ... 57

Rhaglenni ar gyfer cyflawnwyr trais ... 58

Ein barn ni ... 61

Modelu ymddygiadau a diwylliant sefydliadol ... 62

Ein barn ni ... 63

**Atodiad 1: Rhestr o'r sesiynau tystiolaeth lafar ... 65**

**Atodiad 2: Rhestr o'r dystiolaeth ysgrifenedig ... 67**

Gwybodaeth ychwanegol ... 68

# Rhagair y Cadeirydd

Yng Nghymru a Lloegr, mae dwy fenyw yn cael eu lladd bob wythnos gan gyn-bartner neu bartner presennol. Mae trais a chamdriniaeth yn erbyn menywod yn epidemig. Mae'r ffigurau'n awgrymu y bydd un o bob tair menyw rhwng 16 a 59 oed yn profi cam-drin domestig yn ystod ei hoes. Ond oherwydd tanadrodd, mae'n anodd gwybod gwir raddfa'r broblem.

Y tu ôl i'r ystadegau brawychus hyn, mae yna berson. Efallai mai mam ydyw, neu gydweithiwr neu rywun agos. Mae pob un yn ddioddefwr yn yr epidemig hwn, ac mae pob un yn haeddu cael ei chofio.Rydyn ni wedi canolbwyntio yn yr adroddiad hwn ar sut y gallwn helpu i ddod â'r epidemig hwn i ben. Mae'n rhaid inni i gyd gymryd cydgyfrifoldeb i fynd i'r afael â'r broblem, yn enwedig wrth drafod y mater â dynion a bechgyn.

Mae ein hargymhellion yn pwysleisio'r rôl arweiniol sydd gan Lywodraeth Cymru i'w chwarae o ran:

- hyrwyddo cydraddoldeb rhwng y rhywiau ar draws y sector cyhoeddus, y sector preifat a'r trydydd sector, gan gydnabod mai'r rhagdybiaeth mai dynion sy'n cael goruchafiaeth yn ein teuluoedd, ein gwaith a'n diwylliant yw conglfaen yr endemig trais ar sail rhywedd;
- sicrhau bod ymyriadau i atal a lliniaru trais ar sail rhywedd yn seiliedig ar y dystiolaeth orau sydd ar gael o'r hyn sy'n gweithio;
- cefnogi'r rhai mewn swyddi cyfrifol, gan ddechrau gyda gwasanaethau rheng flaen, drwy roi'r hyfforddiant a'r adnoddau iddynt er mwyn darparu ymyriadau effeithiol.



**Jenny Rathbone AS,**
Cadeirydd y Pwyllgor Cydraddoldeb a Chyfiawnder Cymdeithasol

# Argymhellion

**Argymhelliad 1.** Dylai Llywodraeth Cymru fabwysiadu dull gweithredu llywodraeth gyfan a gweithio gyda phartneriaid ar draws gwasanaethau cyhoeddus, y sector preifat a'r trydydd sector i hyrwyddo cydraddoldeb rhwng y rhywiau a chynhwysiant yng Nghymru. Er mwyn helpu i gyflawni hyn, dylai greu 'prawf cydraddoldeb rhwng y rhywiau' sy'n asesu effaith pob penderfyniad polisi a chynnig deddfwriaethol ar gydraddoldeb rhwng y rhywiau gyda'r nod o leihau gwahaniaethau rhwng y rhywiau. Dylid cyflwyno'r prawf cydraddoldeb rhwng y rhywiau cyn gynted ag y bo modd a dylid ei gymhwyso i holl benderfyniadau Llywodraeth Cymru o fis Rhagfyr 2024 ymlaen fan bellaf. .................................... Tudalen 18

**Argymhelliad 2.** Dylai Llywodraeth Cymru gofleidio ei rôl fel arloeswr ac arweinydd wrth gymhwyso dull iechyd y cyhoedd o ymdrin â thrais ar sail rhywedd, a hynny drwy:

- nodi cyfleoedd i godi ymwybyddiaeth a chreu cyd-ddealltwriaeth gyffredin o'r dull a'r Glasbrint;
- cyfrannu at y sylfaen dystiolaeth ar yr hyn sy'n gweithio, a hynny drwy fynd ati'n rhagweithiol i gyhoeddi diweddariadau ar y cynnydd sydd wedi ei wneud ac adnoddau a ddefnyddir yn sylfaen i'r Glasbrint;
- parhau i flaenoriaethu gwaith gyda'r genhedlaeth nesaf drwy raglenni effeithiol wedi'u hanelu at blant a phobl ifanc. ..................................... Tudalen 19

**Argymhelliad 3.** Dylai Llywodraeth Cymru nodi sut y bydd data, tystiolaeth a dadansoddiadau yn llywio'r gwaith o ddatblygu a gwerthuso polisïau sy'n mynd i'r afael â chroestoriadedd trais ar sail rhywedd. Yn benodol, dylai Llywodraeth Cymru sicrhau bod eglurder i'r Unedau Tystiolaeth Cydraddoldeb, Hil ac Anableddau ynghylch eu blaenoriaethau, a chytuno ar amserlenni ar gyfer cwblhau cerrig milltir allweddol erbyn diwedd Ebrill 2024. Dylai'r ymateb gynnwys manylion am:

- y dyddiad targed ar gyfer cwblhau'r gwaith o sefydlu data gwaelodlin a chrynodeb o'r dangosyddion gwaelodlin y mae'n bwriadu eu defnyddio;
- y partneriaid y bydd yn gweithio gyda nhw i gasglu data gwaelodlin a'r dyddiad targed ar gyfer prif ffrydio ymdrechion o ran casglu data; a
- pryd y mae'n rhagweld y bydd y data a gesglir gan yr Unedau yn gallu cyfrannu'n ystyrlon at ddatblygu a gwerthuso polisi. ........................ Tudalen 27

**Argymhelliad 4.** Dylai Llywodraeth Cymru gymryd camau ar fyrder i sicrhau bod gwasanaethau therapi chwim penodol ac arbenigol ar gael i bob baban, plentyn a pherson ifanc sy'n profi trais ar sail rhywedd neu sy'n dyst i drais o'r fath, a dylai fanylu ar y camau hyn yn ei hymateb i'r adroddiad hwn. Dylai hyn gynnwys:

- manylion am sut y mae Llywodraeth Cymru yn gorfodi hawliau babanod, plant a phobl ifanc sydd wedi profi trais neu sydd wedi bod yn dyst i drais i gael mynediad at wasanaethau therapi penodol ac arbenigol drwy lwybr carlam;
- adolygu'r gwasanaethau therapi sydd ar gael i blant a phobl ifanc sydd wedi profi trais neu sydd wedi bod yn dyst i drais, a pha mor dda y mae'r gwasanaethau hyn wedi'u hintegreiddio i'r system iechyd ac addysg ehangach.

Dylai'r gwaith hwn gynnwys yr holl randdeiliaid perthnasol (gan gynnwys yr heddlu, CAFCASS a gwasanaethau cymdeithasol awdurdodau lleol), a rhaid bwrw ymlaen â'r gwaith ar fyrder gyda diweddariad yn cael ei roi i'r Senedd yn nhymor yr hydref 2024. ..... Tudalen 32

**Argymhelliad 5.** Dylai Llywodraeth Cymru ofyn i Brif Arolygydd Estyn dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru gynnal adolygiad thematig cenedlaethol o berthnasoedd iach mewn ysgolion. Dylai'r adolygiad:

- cynnwys sylwadau ac argymhellion ar ddigonolrwydd adnoddau a hyfforddiant ar gyfer addysgu plant am gydberthnasoedd iach;
- ceisio cadarnhau a oes unrhyw gysylltiad rhwng diffyg darpariaeth a lefelau uwch o amddifadedd; a
- nodi'r arfer gorau o ran 'dulliau ysgol gyfan' wrth atal trais ar sail rhywedd.

Dylid cynnwys yr adolygiad yn y rhaglen adolygiadau thematig nesaf sydd ar gael, a dylid ei gwblhau o fewn yr amserlenni arferol. ..... Tudalen 37

**Argymhelliad 6.** Rhaid i Lywodraeth Cymru gymryd camau ar unwaith i sicrhau bod athrawon yn cael eu hatgoffa o'r ddyletswydd orfodol sydd arnynt i adrodd ar achosion o anffurfio organau cenhedlu benywod. Yn y tymor hwy, dylai Llywodraeth Cymru weithio gydag Estyn i sefydlu trefniadau monitro a mesurau diogelu i roi sicrwydd bod athrawon yn ymwybodol o'u dyletswyddau cyfreithiol o

ran atal trais ar sail rhywedd. Dylai'r gwaith i sefydlu'r mesurau monitro hyn gael ei gwblhau erbyn mis Medi 2024. ........ Tudalen 38

**Argymhelliad 7.** Dylai Llywodraeth Cymru ei gwneud yn ofynnol i'w Phanel Cynghori ar Gadernid Digidol sydd newydd ei sefydlu gytuno ar ei flaenoriaethau a'i flaenraglen waith yn gyflym a chyhoeddi'r rhain erbyn diwedd mis Ebrill 2024. Dylai'r Panel egluro pa feysydd y bydd yn eu blaenoriaethu, amserlenni a ragwelir ar gyfer trefn ei flaenraglen waith a sut y bydd yn ystyried meysydd sylweddol o bolisi a deddfwriaeth nad ydynt wedi'u datganoli sy'n ymwneud â rheoleiddio digidol a rheoleiddio ar-lein. ........ Tudalen 43

**Argymhelliad 8.** Dylai Llywodraeth Cymru weithio gyda chyrff iechyd i wella gallu gweithwyr gofal iechyd proffesiynol i adnabod arwyddion trais ar sail rhywedd, ac i ymateb i'r arwyddion hynny. Er mwyn gweithredu'r argymhelliad hwn, dylai Llywodraeth Cymru:

- ymestyn y ddyletswydd Gofyn a Gweithredu i weithwyr iechyd a gofal cymdeithasol proffesiynol eraill, a chyhoeddi canllawiau diwygiedig i feddygon teulu fel man cychwyn;
- olrhain ac adrodd yn gyhoeddus ar ystadegau ynglŷn â chyfranogiad staff mewn rhaglenni hyfforddiant;
- coladu a chyhoeddi ystadegau ynglŷn â phrydlondeb amseroedd ymateb (rhwng datgelu'r sefyllfa a chael eu gweld gan arbenigwr) o fewn llwybrau atgyfeirio Gofyn a Gweithredu; ac
- amlinellu'n glir y fethodoleg ar gyfer mesur effaith rhaglenni hyfforddiant.

Dylid cwblhau'r gwaith hwn erbyn mis Mawrth 2025. ........ Tudalen 48

**Argymhelliad 9.** Dylai Llywodraeth Cymru sefydlu seithfed ffrwd waith o fewn y Glasbrint Trais yn Erbyn Menywod, Cam-drin Domestig a Thrais Rhywiol, a dylai'r seithfed ffrwd honno wneud argymhellion uchelgeisiol ar sut y gall busnesau a sefydliadau greu gweithleoedd sy'n fwy diogel a chyfartal. Dylai'r ffrwd waith gynnwys gwybodaeth ymarferol am y polisïau, y gweithdrefnau a'r hyfforddiant sydd eu hangen i gefnogi'r nod hwn. Dylai'r grŵp weithredu mewn ysbryd o bartneriaeth gymdeithasol gyda chynrychiolaeth o blith cyflogwyr ac undebau llafur. ........ Tudalen 50

**Argymhelliad 10.** Dylai Llywodraeth Cymru ystyried ariannu ymgyrch ymwybyddiaeth gyhoeddus ledled y wlad gyda model rôl gwrywaidd enwog iawn a all ysbrydoli dynion a bechgyn eraill i wneud safiad yn erbyn trais a hyrwyddo gwerthoedd ac ymddygiadau cadarnhaol. Mae'n bwysig sicrhau bod y person hwn yn wybodus am y mater ac yn cael hyfforddiant priodol i gyfathrebu ac eirioli dros newid yn effeithiol. Dylid cynnal gwerthusiad o'r effaith ar ddiwedd yr ymgyrch. ........ Tudalen 57

**Argymhelliad 11.** Dylai Llywodraeth Cymru, drwy ei ffrwd waith i gyflawnwyr, gynnal adolygiad cyflym o'r rhaglenni i gyflawnwyr sydd wedi eu llunio i atal trais ar sail rhywedd, ac sydd ar gael ledled Cymru. Dylai'r adolygiad anelu at roi sicrwydd i ddioddefwyr ac eraill bod pob rhaglen yn ystyried eu diogelwch ac yn gallu dangos tystiolaeth o adsefydlu effeithiol. Dylai hefyd ystyried gwahanol ffactorau diwylliannol a chyd-destunol a all ddylanwadu ar effeithiolrwydd rhaglenni i gyflawnwyr. Dylid cwblhau'r adolygiad cyflym erbyn mis Mehefin 2024. ........ Tudalen 62

**Argymhelliad 12.** Dylai pob Aelod o'r Senedd ymrwymo i gwblhau hyfforddiant ar atal trais ar sail rhywedd erbyn diwedd 2024. Yn ogystal â'r ymrwymiad hwn, dylid annog staff cymorth Aelodau'r Senedd a staff Comisiwn y Senedd drwy'r sianeli priodol i ymgymryd â hyfforddiant o'r fath.

Dylid ceisio'r hyfforddiant hwn gan ddarparwr arfer gorau, a dylid ceisio mynd i'r afael â normau diwylliannol ac arferion sy'n golygu bod trais ar sail rhywedd yn dal i ddigwydd, gan barchu amrywiaeth ddiwylliannol ar yr un pryd. ........ Tudalen 63

# 1. Cyflwyniad

## Beth yw dull iechyd y cyhoedd?

**1.** Mae Sefydliad Iechyd y Byd yn diffinio dull iechyd y cyhoedd o atal trais fel ymgais i wella iechyd a diogelwch pob unigolyn drwy fynd i'r afael â ffactorau risg sylfaenol sy'n cynyddu'r tebygolrwydd y bydd unigolyn yn dioddef trais neu'n cyflawni trais.[1]

**2.** Mae dilyn y dull hwn wrth ymdrin â thrais ar sail rhywedd yn golygu mynd i'r afael â hyn fel mater iechyd y cyhoedd yn hytrach na phroblem unigol yn unig. Mae hyn yn cynnwys cynnal rhaglenni ar gyfer y boblogaeth gyfan, a'i nod yw sicrhau newid diwylliannol. O'r herwydd, mae'n cydnabod bod trais ar sail rhywedd yn broblem eang a chymhleth sy'n:

- edrych ar y gymdeithas gyfan ac yn cydnabod y canlyniadau sylweddol y mae trais ar sail rhywedd yn eu cael ar iechyd a llesiant drwy gydol oes;
- cydnabod bod ymateb amlsector a chydweithio yn hanfodol i ddileu trais ar sail rhywedd; a
- ceisio mynd i'r afael â'r hyn sy'n achosi i'r trais ddigwydd, a hynny drwy ddull atal tairochrog; sylfaenol, eilaidd a thrydyddol.

## Nodyn ar yr iaith a ddefnyddir

Mae'n dra hysbys bod cysylltiad cryf a chyson rhwng anghydraddoldeb rhwng y rhywiau a thrais yn erbyn menywod. Mae trais ar sail rhywedd yn cael ei gyflawni i raddau anghymesur gan ddynion. Hefyd i raddau anghymesur, menywod a merched yw'r dioddefwyr. Mae'r term 'trais ar sail rhywedd' yn cydnabod yr anghydraddoldebau o ran pŵer sy'n bodoli ar sawl lefel yn ein cymdeithas, ac mae'n sail i sawl ffurf ar drais yn erbyn menywod. Fodd bynnag, mae hefyd yn cydnabod y gall dynion a bechgyn wynebu trais ar sail rhywedd. I adlewyrchu hyn, defnyddir y term trais ar sail rhywedd drwy gydol yr adroddiad hwn.

[1] Sefydliad Iechyd y Byd, 'The VPA Approach'

## Y cefndir i ymchwiliad y Pwyllgor

**3.** Nod ymchwiliad y Pwyllgor Cydraddoldeb a Chyfiawnder Cymdeithasol oedd ystyried sut y mae dull iechyd y cyhoedd o atal trais ar sail rhywedd yn cael ei ddilyn yng Nghymru. Gwnaethom ganolbwyntio'n benodol ar fesurau atal sylfaenol ac eilaidd.

**4.** Fe wnaethom gasglu tystiolaeth drwy ymgynghoriad cyhoeddus a chynnal sesiynau tystiolaeth gydag arbenigwyr. Sefydlwyd Grŵp Cynghori a oedd yn cynnwys goroeswyr trais ar sail rhywedd, a chawsom dystiolaeth gref gan y Grŵp hwnnw a lywiodd y modd y cynhaliwyd sesiynau craffu gyda Gweinidogion a'r ymchwiliad yn gyffredinol.[2] Fe wnaeth yr Aelodau hefyd gwrdd â chyfranogwyr rhaglen yng Nghaerdydd ar gyfer y rhai sydd wedi cyflawni trais ar sail rhywedd.[3]

**5.** Rhoddodd y Gweinidog Cyfiawnder Cymdeithasol, Jane Hutt AS, (y Gweinidog) dystiolaeth i'r Pwyllgor ar 18 Medi 2023 a darparodd bapur ysgrifenedig.[4] Clywodd y Pwyllgor dystiolaeth hefyd gan y Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol, y Dirprwy Weinidog Gwasanaethau Cymdeithasol, a Gweinidog y Gymraeg ac Addysg.[5] Darparodd y Gweinidog Addysg bapur ysgrifenedig.[6]

**6.** Ar 3 Ionawr 2024, canfu adolygiad annibynnol o Wasanaeth Tân ac Achub De Cymru broblemau sylweddol gyda diwylliant a gwerthoedd y sefydliad gan gynnwys agweddau ac ymddygiadau gwahaniaethol a misogynistaidd drwyddi draw. Cyhoeddwyd y canfyddiadau hyn, er eu bod yn berthnasol i themâu'r ymchwiliad, ar ôl i'r Pwyllgor orffen casglu tystiolaeth ac roeddent yn rhy hwyr i gael eu hystyried neu eu hadlewyrchu yn yr adroddiad hwn.

**7.** Mae Atodiadau 1 a 2 yn cynnwys manylion llawn y dystiolaeth a gafwyd. Hoffai'r Pwyllgor ddiolch i bawb a gyfrannodd at yr ymchwiliad, yn enwedig aelodau'r Grŵp Cynghori a fu mor barod i roi o'u hamser a thrafod eu profiadau – roedd eu mewnbwn yn hollbwysig.

---

[2] Cyfarfu'r Pwyllgor â'r Grŵp Cynghori ar 22 Mai 2023 ac 11 Medi 2023.
[3] Fe wnaeth Jenny Rathbone AS, Altaf Hussain AS, Sarah Murphy AS a Sioned Williams AS gwrdd â rheolwr a chyfranogwyr y rhaglen 'Driving Change' yng Nghaerdydd ar 21 Mehefin 2023. Mae nodyn o'r sgwrs ar gael ar-lein.
[4] Y Pwyllgor Cydraddoldeb a Chyfiawnder Cymdeithasol, 18 Medi 2023; Llywodraeth Cymru, papur tystiolaeth
[5] Y Pwyllgor Cydraddoldeb a Chyfiawnder Cymdeithasol, 11 Medi 2023
[6] Llywodraeth Cymru, papur tystiolaeth gan Weinidog y Gymraeg ac Addysg

**8.** Mae manylion llawn, gan gynnwys y cylch gorchwyl, ar gael ar wefan yr ymchwiliad.

## Lle i gael cyngor a chymorth

Os yw unrhyw un o'r materion a godir yn yr adroddiad hwn yn effeithio arnoch chi, neu rywun yr ydych yn ei adnabod, gallwch gysylltu â llinell gymorth Byw Heb Ofn i gael gwybodaeth, cyngor neu gymorth cyfrinachol:

Byw Heb Ofn: 0808 80 10 800

***Ffigur 1 y fframwaith cyfreithiol a pholisi ar gyfer atal trais ar sail rhywedd yng Nghymru***

**Y fframwaith cyfreithiol a pholisi yng Nghymru**



**Deddf Trais yn erbyn Menywod, Cam-drin Domestig a Thrais Rhywiol (Cymru) 2015**

Creodd y Ddeddf ddyletswyddau cyfreithiol i atal trais ar sail rhywedd, ac i Lywodraeth Cymru gyhoeddi strategaeth

Mae strategaeth 2022-2026 yn ymrwymo i ddefnyddio dull iechyd y cyhoedd wrth atal trais

Mae mesurau ataliol ac ymyrraeth gynnar yn un o chwe blaenoriaeth



**Trais yn erbyn menywod, cam-drin domestig a thrais rhywiol: cynllun gweithredu lefel uchel y glasbrint**

Mae'r cynllun yn rhoi rhagor o fanylion am weithredu'r strategaeth trais yn erbyn menywod, cam-drin domestig a thrais rhywiol

Mae'n cynnwys 6 ffrwd waith yr adroddir arnynt yn flynyddol

Mae'n cwmpasu gwaith cyrff cyhoeddus datganoledig a chyrff sydd heb eu datganoli



**Dyletswydd o ran trais difrifol**

Mae'r ddyletswydd yn gosod cyfrifoldeb ar amrywiaeth o bartneriaid aml-asiantaeth i ddilyn dull iechyd y cyhoedd wrth atal trais

Nod y ddyletswydd yw sicrhau bod gwasanaethau'n cydweithio ac yn rhannu gwybodaeth i atal a lleihau trais difrifol

Mae'r ddyletswydd yn cwmpasu Cymru a Lloegr

**9.** Mae Llywodraeth Cymru yn pwysleisio nad yw ei dull iechyd y cyhoedd o atal trais yn golygu y bydd llai o gefnogaeth i oroeswyr:

> *"... Mae hyn yn ymwneud ag ehangu effaith yr hyn a wnawn er mwyn sicrhau y caiff goroeswyr eu cefnogi'n gyfannol fel unigolion, a bod effaith ehangach ar y gymdeithas sy'n lleihau'r tebygolrwydd y byddant yn profi trais yn erbyn menywod, cam-drin domestig a thrais rhywiol[7] yn y lle cyntaf."[8]*

***Ffigur 2 Y gwahaniaethau rhwng mesurau atal sylfaenol, eilaidd a thrydyddol***




**10.** Ym mis Mawrth 2023, cyhoeddodd Llywodraeth Cymru ei Glasbrint a oedd yn cynnwys chwe ffrwd waith a gafodd eu llunio er mwyn bwrw ymlaen â'r camau

---

[7] Sylwch fod y term Saesneg 'VAWDASV' yn sefyll am Drais yn erbyn Menywod, Cam-drin Domestig a Thrais Rhywiol a dyma'r term a ddefnyddir yn lled-swyddogol mewn rhai amgylchiadau e.e. y Deddf 2015
[8] Llywodraeth Cymru, papur tystiolaeth

gweithredu a nodir yn y strategaeth trais yn erbyn menywod, cam-drin domestig a thrais rhywiol.[9] Dywedodd y Gweinidog fod camau'n cael eu cymryd i wneud y ffrydiau gwaith yn fwy tryloyw, gan gynnwys cyhoeddi cofnodion cryno o gyfarfodydd Glasbrint ar wefan Llywodraeth Cymru ynghyd ag anfon cylchlythyr at randdeiliaid.[10]

**11.** Yn 2021 cyhoeddodd yr Uned Atal Trais o fewn Iechyd Cyhoeddus Cymru (ICC) ganfyddiadau adolygiad a gomisiynwyd gan Lywodraeth Cymru i 'Beth sy'n Gweithio i Atal Trais yn erbyn Menywod, Cam-drin Domestig a Thrais Rhywiol?' Roedd yr adroddiad yn cynnwys asesiad systematig o'r sylfaen dystiolaeth ar gyfer mesurau atal sylfaenol ac eilaidd mewn perthynas â thrais yn erbyn menywod, cam-drin domestig a thrais rhywiol.[11]

## Y Grŵp Cynghori a chydgynhyrchu

**12.** Mae cyd-gynhyrchu yn nodwedd allweddol o ddull iechyd y cyhoedd. Mae Panel Cenedlaethol o ddioddefwyr a goroeswyr yn rhoi cyngor i Lywodraeth Cymru ar y Glasbrint.

**13.** Rydym wedi sefydlu Grŵp Cynghori i lywio ein gwaith ar gamau allweddol o'r ymchwiliad. Fe wnaeth y menywod hyn, sydd â phrofiad personol o drais ar sail rhywedd, roi adborth ar y themâu allweddol yn y dystiolaeth ac awgrymu cwestiynau posibl cyn y sesiwn dystiolaeth gyda'r Gweinidog. Rydym yn parhau i geisio barn y Grŵp Cynghori ynglŷn ag ymateb Llywodraeth Cymru i'n hargymhellion cyn y ddadl ar yr adroddiad hwn yn y Cyfarfod Llawn.

[9] Llywodraeth Cymru, Trais yn erbyn menywod, cam-drin domestig a thrais rhywiol: cynllun gweithredu lefel uchel y glasbrint, Mawrth 2023
[10] Llythyr gan y Gweinidog Cyfiawnder Cymdeithasol, 19 Hydref 2023
[11] Iechyd Cyhoeddus Cymru, Uned Atal Trais, Beth sy'n Gweithio i Atal Trais yn erbyn Menywod, Cam-drin Domestig a Thrais Rhywiol?, Medi 2021

# 2. Ymateb i'r her

Y cyd-destun hollbwysig ar gyfer trais ar sail rhywedd yw anghydraddoldeb rhwng y rhywiau a normau diwylliannol lle mai dynion yw'r rhai sydd â'r pŵer, sy'n gwneud penderfyniadau ac sy'n arwain ar lefel gymdeithasol, yn y gweithle ac mewn teuluoedd.[12]

## Anghydraddoldeb rhwng y rhywiau

**14.** Mae trais ar sail rhywedd wedi'i wreiddio'n ddwfn yn y strwythurau, y normau a'r gwerthoedd cymdeithasol a diwylliannol sy'n llywodraethu cymdeithas. Dywedodd Iechyd Cyhoeddus Cymru (ICC) ei fod yn aml yn parhau gan fod yna ddiwylliant o wadu a distawrwydd ynglŷn â'r mater, a bod hyn yn:

"… achosi anghydraddoldeb rhwng y rhywiau, ac yn sgil-effaith o anghydraddoldeb rhwng y rhywiau".[13]

**15.** Dywedodd ICC fod cydnabod anghydraddoldebau mewn profiad pobl o drais, a chymryd golwg croestoriadol, yn allweddol i ddull iechyd y cyhoedd o ymdrin â'r mater.[14]

**16.** Mae hyrwyddo cydraddoldeb rhwng y rhywiau yn hollbwysig i atal trais ar sail rhywedd. Roedd tystiolaeth gan Cymorth i Ferched Cymru, Plan International UK, Coleg Brenhinol y Seiciatryddion a Phlismona yng Nghymru oll yn cydnabod mai anghydraddoldebau rhwng y rhywiau yw'r hyn sy'n meithrin agweddau a chredoau niweidiol.[15]

[12] Cynghorwyr Cenedlaethol ar gyfer Trais yn erbyn Menywod, Cam-drin Domestig a Thrais Rhywiol (VAWDASV), cyfieithiad o ddyfyniad o'r dystiolaeth ysgrifenedig
[13] Iechyd Cyhoeddus Cymru, cyfieithiad o ddyfyniad o'r dystiolaeth ysgrifenedig
[14] Iechyd Cyhoeddus Cymru, tystiolaeth ysgrifenedig
[15] Cymorth i Ferched Cymru, tystiolaeth ysgrifenedig; Plan International UK, tystiolaeth ysgrifenedig; Plismona yng Nghymru, tystiolaeth ysgrifenedig

**17.** Dywedodd Dr Stephen Burrell o Brifysgol Durham fod gwreiddiau trais yn erbyn menywod a merched yn parhau i fod yn fater blaenllaw wrth ddilyn dull iechyd y cyhoedd:

> *"Ultimately, this violence is founded in, and plays a significant role in reproducing gender inequalities in which women's lives are valued less and men are encouraged to expect to have more power. This cannot simply be seen as one among many factors contributing to gender-based violence – it is the central factor."*[16]

**18.** Nododd Dr Burrell fod gwaith ymchwil yn cefnogi dulliau trawsnewidiol o ran rhywedd, fel y gall unigolion fynd ati i herio normau o ran rhywedd, hyrwyddo rolau sydd â dylanwad cymdeithasol a gwleidyddol ymhlith menywod mewn cymunedau, a mynd i'r afael ag anghydraddoldebau o ran pŵer. Dywedodd fod cyllid ar gyfer y math hwn o waith ataliol yn dal yn fach iawn o ystyried maint y broblem.[17]

**19.** Dywedodd y Gweinidog fod yr angen i fynd i'r afael â thrais gan ddynion, casineb tuag at fenywod ac anghydraddoldeb rhwng y rhywiau yn allweddol i dorri'r cylch a "mynd i'r afael ag achosion sylfaenol trais yn erbyn menywod, cam-drin domestig a thrais rhywiol".[18]

## Dull y Llywodraeth

**20.** Disgrifiodd ICC raddfa'r ymateb sydd ei angen i ddelio â thrais ar sail rhywedd fel a ganlyn:

> "No single sector or organisation can solve this problem alone."[19]

**21.** Dywedodd Cymorth i Ferched Cymru fod atal trais ar sail rhywedd yn fater i bawb.[20]

---

[16] Dr Stephen Burrell, Prifysgol Durham, tystiolaeth ysgrifenedig
[17] Y Pwyllgor Cydraddoldeb a Chyfiawnder Cymdeithasol, 12 Mehefin 2023, Cofnod y Trafodion, paragraff 43
[18] Llywodraeth Cymru, papur tystiolaeth
[19] Iechyd Cyhoeddus Cymru, tystiolaeth ysgrifenedig ychwanegol
[20] Cymorth i Ferched Cymru, tystiolaeth ysgrifenedig

**22.** Pwysleisiwyd yr angen i gydweithio ar draws asiantaethau ym mhob sector gan y Cynghorwyr Cenedlaethol, Dr Rachael Fenton, ICC, NSPCC Cymru, Lloyds Banking Group, Cymdeithas Seicolegol Prydain ac eraill.[21]

**23.** Roedd y Cynghorwyr Cenedlaethol ar gyfer Trais yn erbyn Menywod, Cam-drin Domestig a Thrais Rhywiol yn pwysleisio'r angen i edrych ar effaith penderfyniadau polisi ehangach ar yr agenda atal.[22]

**24.** Rhybuddiodd Lara Snowdon o ICC fod y dull iechyd y cyhoedd a nodir yn y strategaeth Trais yn erbyn Menywod, Cam-drin Domestig a Thrais Rhywiol yn ei ddyddiau cynnar:

> *"… we have this high-level commitment in the strategy, but there is still a lot of work, really, to do to embed that approach in practice across Wales."*[23]

**25.** Cydnabu'r Gweinidog fod llawer yn dal i fod yn anhysbys ynghylch effeithiolrwydd dulliau iechyd y cyhoedd o fynd i'r afael â thrais ar sail rhywedd, a bod y Llywodraeth yn bwriadu dysgu ar y cyd â phartneriaid wrth ddatblygu'r dull hwn. Soniodd am y ffaith y crëwyd Storfa Ganolog o Wybodaeth a fydd yn canolbwyntio ar gyfer datblygu tystiolaeth a gwerthuso.[24]

**26.** Yn fwy cyffredinol, dywedodd y Gweinidog fod mynd i'r afael â thrais yn erbyn menywod, cam-drin domestig a thrais rhywiol yn amlwg iawn ym mlaenoriaethau'r Llywodraeth, a'i bod yn gweithio gyda chydweithwyr ar draws y Llywodraeth i gyflawni hyn, ond byddai angen i'r dull gynnwys y gymdeithas gyfan.[25]

---

[21] Tystiolaeth ysgrifenedig: Cynghorwyr Cenedlaethol ar gyfer Trais yn erbyn Menywod; NSPCC Cymru; Lloyds Banking Group; Cymdeithas Seicolegol Prydain, Y Pwyllgor Cydraddoldeb a Chyfiawnder Cymdeithasol, 22 Mai 2023, Cofnod y Trafodion, paragraff 52;
[22] Y Pwyllgor Cydraddoldeb a Chyfiawnder Cymdeithasol, 22 Mai 2023, Cofnod y Trafodion, paragraff 54 a 209
[23] Y Pwyllgor Cydraddoldeb a Chyfiawnder Cymdeithasol, 22 Mai 2023, Cofnod y Trafodion, paragraff 5
[24] Llywodraeth Cymru, papur tystiolaeth
[25] Y Pwyllgor Cydraddoldeb a Chyfiawnder Cymdeithasol, 18 Medi 2023, Cofnod y Trafodion, paragraff 5, 16

## Ein barn ni

### Epidemig o drais

Gellir disgrifio faint o drais ar sail rhywedd sy'n bodoli o fewn ein cymdeithas fel epidemig. Yn union fel nad yw'n bosibl delio ag epidemig heb wybod sut y mae'n cael ei drosglwyddo, yn yr un modd ni ellir atal trais ar sail rhywedd oni bai ein bod yn mynd i'r afael ag anghydraddoldeb rhwng y rhywiau.

Credwn mai anghydraddoldebau cymdeithasol sydd wrth wraidd yr epidemig hwn, a'r pwysicaf ohonynt yw anghydraddoldeb rhwng y rhywiau. Fel egwyddor gyffredinol, mae'n rhaid gweithredu polisïau sy'n hyrwyddo cydraddoldeb rhwng y rhywiau. Mae delio â'r anghydbwysedd sylfaenol rhwng dynion a menywod yn hollbwysig i atal ac, yn y pen draw, dileu trais ar sail rhywedd, gan feithrin cymdeithas sy'n fwy diogel ac sy'n decach i bawb.

Bydd hyn yn golygu newid diwylliannol heriol. Bydd angen i Lywodraeth Cymru fabwysiadu dull 'llywodraeth gyfan' trylwyr. Bydd angen iddi ennyn cefnogaeth partneriaid ar draws y sector cyhoeddus, y sector preifat a'r trydydd sector a gwneud hyn yn gyfrifoldeb ar y cyd mewn gwirionedd. Dylai'r dull gweithredu gynnwys cyflwyno 'prawf cydraddoldeb rhwng y rhywiau' sy'n asesu effaith pob penderfyniad polisi a chynnig deddfwriaethol ar gydraddoldeb rhwng y rhywiau.

**Argymhelliad 1.** Dylai Llywodraeth Cymru fabwysiadu dull gweithredu llywodraeth gyfan a gweithio gyda phartneriaid ar draws gwasanaethau cyhoeddus, y sector preifat a'r trydydd sector i hyrwyddo cydraddoldeb rhwng y rhywiau a chynhwysiant yng Nghymru. Er mwyn helpu i gyflawni hyn, dylai greu 'prawf cydraddoldeb rhwng y rhywiau' sy'n asesu effaith pob penderfyniad polisi a chynnig deddfwriaethol ar gydraddoldeb rhwng y rhywiau gyda'r nod o leihau gwahaniaethau rhwng y rhywiau. Dylid cyflwyno'r prawf cydraddoldeb rhwng y rhywiau cyn gynted ag y bo modd a dylid ei gymhwyso i holl benderfyniadau Llywodraeth Cymru o fis Rhagfyr 2024 ymlaen fan bellaf.

Cam Gweithredu 1. Dylai Llywodraeth Cymru sicrhau bod pob cynllun cydraddoldeb yn ymdrin â gwahaniaethau rhwng y rhywiau, yn herio stereoteipiau ac yn meithrin diwylliant o barch a chydraddoldeb. Dylai weithio gyda phartneriaid ar gamau manwl y bydd yn eu cymryd yn y tymor byr, y tymor canolig a'r tymor hir i wella ymwybyddiaeth y cyhoedd o faterion sy'n ymwneud â rhywedd, hyrwyddo menywod mewn rolau arweiniol, a gorfodi hawliau sy'n gwarantu cydraddoldeb a rhyddid rhag gwahaniaethu, aflonyddu a thrais. Dylid

rhoi diweddariad am y camau hyn i'r Senedd yn y Cyfarfod Llawn o fewn chwe mis i ddadl y Senedd ar yr adroddiad hwn, ac yn flynyddol wedi hynny.

### Dull y Llywodraeth

Drwy gymhwyso dull iechyd y cyhoedd o ymdrin â thrais ar sail rhywedd, mae Llywodraeth Cymru yn cymryd rôl arweiniol y gallai wneud mwy yn ei chylch. Mae maint yr her yn cyfiawnhau lefel yr uchelgais y mae Llywodraeth Cymru wedi'i gosod iddi hi ei hun. Fodd bynnag, ni ellir cyflawni uchelgeisiau oni bai fod ymwybyddiaeth a dealltwriaeth yn cael eu gwella yn gyffredinol. Mae'n syndod felly nad yw'r cynlluniau gwaith ar gyfer pob un o'r ffrydiau gwaith a nodir yn y Glasbrint ar gael yn gyhoeddus. O ystyried bod y wybodaeth sydd ar gael ar hyn o bryd am y dull iechyd y cyhoedd yn gyfyngedig, mae achos cryf dros gyhoeddi'r rhain yn gyflym.

**Argymhelliad 2.** Dylai Llywodraeth Cymru gofleidio ei rôl fel arloeswr ac arweinydd wrth gymhwyso dull iechyd y cyhoedd o ymdrin â thrais ar sail rhywedd, a hynny drwy:

- nodi cyfleoedd i godi ymwybyddiaeth a chreu cyd-ddealltwriaeth gyffredin o'r dull a'r Glasbrint;
- cyfrannu at y sylfaen dystiolaeth ar yr hyn sy'n gweithio, a hynny drwy fynd ati'n rhagweithiol i gyhoeddi diweddariadau ar y cynnydd sydd wedi ei wneud ac adnoddau a ddefnyddir yn sylfaen i'r Glasbrint;
- parhau i flaenoriaethu gwaith gyda'r genhedlaeth nesaf drwy raglenni effeithiol wedi'u hanelu at blant a phobl ifanc.

Mae'r dull gweithredu cyffredinol wedi'i ategu gan Ddeddf Trais yn erbyn Menywod, Cam-drin Domestig a Thrais Rhywiol 2015. Nodau'r Ddeddf yw atal, amddiffyn a chefnogi pobl y mae trais yn erbyn menywod, cam-drin domestig a thrais rhywiol wedi effeithio arnynt. Mae'n gosod ystod o ddyletswyddau statudol ar Weinidogion Cymru a chyrff cyhoeddus ar draws y sector cyhoeddus. O ystyried pwysigrwydd y dyletswyddau cyfreithiol hyn ar Weinidogion Cymru, mae'n ddyletswydd ar Weinidogion i sicrhau mwy o dryloywder ac atebolrwydd ar draws Llywodraeth Cymru gyfan i ddangos yn gliriach sut y mae'r Ddeddf yn cael ei chyflawni ar sail drawslywodraethol. Mae angen atgoffa pob gwasanaeth cyhoeddus yng Nghymru ynghylch cyflawni'r dyletswyddau sydd hefyd yn berthnasol iddyn nhw, a chraffu ar y modd y gwneir hynny.

Cam Gweithredu 2. Er mwyn hybu tryloywder ymhellach, edrychwn ymlaen at weld y cynlluniau gwaith a manylion aelodaeth pob un o ffrydiau gwaith y Glasbrint yn cael eu cyhoeddi, ac y mae'r Gweinidog wedi ymrwymo i'w cyhoeddi. Byddwn yn ysgrifennu at Lywodraeth Cymru ym mis Mawrth 2024 i gyd-fynd â diwedd y flwyddyn ariannol er mwyn ei dwyn i gyfrif am yr ymrwymiadau hyn.

## Ymgysylltu â dynion a bechgyn

**27.** Yn ogystal â hyrwyddo cydraddoldeb i fenywod, ystyriwyd bod yr angen i ymgysylltu â dynion a bechgyn at ddibenion atal trais ar sail rhywedd yn hollbwysig. Dywed y Gweinidog:

> *"Rhaid inni herio agweddau a newid ymddygiadau'r rhai sy'n ymddwyn yn gamdriniol. Ni ddylai fod angen i fenywod newid eu hymddygiad."*[26]

**28.** Eglurodd Dr Jen Daffin o Seicolegwyr dros Newid Cymdeithasol, pan fydd dynion yn bod yn dreisgar ac yn ymddwyn yn ymosodol, nid ydynt yn dysgu sut i reoli eu hemosiynau eu hunain a sut i ddelio â pherthnasoedd mewn ffordd iach.[27]

**29.** Awgrymodd nifer o dystion fod dynion yn dal i fod yn llai tebygol o siarad neu fod yn agored am eu teimladau, ac y gallant fod yn dueddol o ddiystyru teimladau anodd. Awgrymodd Anne-Marie Lawrence o Plan International UK:

> *"It needs to become normal for boys to recognise how they feel, and to be able to talk about it and to feel safe doing so, but that's quite a shift for a lot of boys and men."*[28]

**30.** Dywedodd Dr Burrell fod angen cynnal sgyrsiau gyda bechgyn a dynion am gydraddoldeb rhwng y rhywiau o oedran mor ifanc â phosibl, gan nodi bod pawb yn wynebu stereoteipiau rhywedd o'r dechrau'n deg: boed hynny gartref, mewn lleoliadau addysgol neu yn y gweithle.[29]

**31.** Ychwanegodd:

[26] Llywodraeth Cymru, papur tystiolaeth
[27] Y Pwyllgor Cydraddoldeb a Chyfiawnder Cymdeithasol, 22 Mai 2023, Cofnod y Trafodion, paragraff 185
[28] Y Pwyllgor Cydraddoldeb a Chyfiawnder Cymdeithasol, 12 Mehefin 2023, Cofnod y Trafodion, paragraff 27
[29] Y Pwyllgor Cydraddoldeb a Chyfiawnder Cymdeithasol, 12 Mehefin 2023, Cofnod y Trafodion, paragraff 34

> *"If we start talking to boys and men more about the pressures that they face about masculinity, like, 'Be tough, be strong, don't show your emotions, don't ask for help', we can help to get to the roots of different kinds of violence and abuse, which is predominantly being perpetrated by men and boys."*[30]

**32.** Dywedodd Anne-Marie Lawrence fod Plan International UK, sy'n gweithio mewn ysgolion, wedi canfod bod y mwyafrif llethol o fechgyn yn teimlo bod angen iddynt ymddwyn yn galed, na allent fod yn nhw eu hunain o amgylch eu ffrindiau, a'u bod wedi dangos agweddau gofidus o ran y gred bod trais yn dderbyniol mewn perthnasoedd.[31]

**33.** Er mai cyfyngedig yw'r dystiolaeth o ran effeithiolrwydd ymyriadau ar gyfer dynion a bechgyn, cyfeiriodd tystion at fentrau sydd â photensial i fod yn addawol megis ymyriadau gan y rhai sy'n dyst i drais, ymyriadau gyda'r glasoed pa fyddant yn canlyn, a rhaglenni ar gyfer cyflawnwyr trais gyda'r bwriad o godi ymwybyddiaeth dynion a bechgyn o drais ar sail rhywedd a herio safbwyntiau am rolau traddodiadol sy'n cael eu priodoli i rywedd. Mae rhai o'r ymyriadau hyn yn cael eu trafod mewn penodau diweddarach.

### Ymgysylltu â bechgyn a dynion ifanc: enghreifftiau o ymyriadau

*Mae Plan International UK yn ariannu wyth sefydliad llawr gwlad i gynnal prosiectau 'profi a dysgu'. Gan weithio'n uniongyrchol gyda bechgyn a dynion ifanc, maent yn cynnwys prosiect yng nghefn gwlad canolbarth a gorllewin Cymru lle mae bechgyn 13 i 15 oed yn garddio mewn gardd gymunedol leol; prosiect yn Abertawe sy'n defnyddio cerddoriaeth a DJ i helpu bechgyn i gysylltu â'u teimladau ynghylch gwrywdod; a phrosiect gan Gymru Ddiogelach yn gweithio gyda dynion ifanc yn y ddalfa. Mae'r prosiectau nodedig hyn yn digwydd ar yr un pryd â'i gilydd, gyda chefnogaeth cymuned ymarfer (lle y rhennir profiadau, heriau, syniadau a llwyddiannau).*

*Dywedodd Anne-Marie Lawrence, Rheolwr Datblygu Cymru ar gyfer Plan International UK fod y prosiectau hyn yn ymwneud â rhoi lle i bobl sy'n cefnogi pobl ifanc i ddysgu ac archwilio'r hyn sy'n gweithio, a*

[30] Y Pwyllgor Cydraddoldeb a Chyfiawnder Cymdeithasol, 12 Mehefin 2023, Cofnod y Trafodion, paragraff 36
[31] Y Pwyllgor Cydraddoldeb a Chyfiawnder Cymdeithasol, 12 Mehefin 2023, Cofnod y Trafodion, paragraff 28

> *sut i greu'r amodau cywir i fechgyn a dynion ifanc deimlo'n ddiogel i feddwl am a thrafod gwrywdod, iechyd meddwl a pherthnasoedd.*

## Ein barn ni

Mae unrhyw ddull o atal trais ar sail rhywedd nad yw'n mynd ati i ymgysylltu â dynion a bechgyn yn annhebygol o lwyddo, yn enwedig o ystyried pa mor ganolog yw anghydraddoldeb rhwng y rhywiau i'r broblem. Clywsom fod rhai ymyriadau'n dangos newid addawol mewn agwedd a/neu ymddygiad ymhlith dynion a bechgyn (er enghraifft, adroddiad Beth sy'n Gweithio ICC) fodd bynnag astudiaethau a gynhaliwyd yn yr Unol Daleithiau oedd y rhan fwyaf o'r dystiolaeth.[32]

Mae angen i Lywodraeth Cymru a'i phartneriaid ymchwilio ymhellach i ymyriadau llwyddiannus sy'n cael effaith hirdymor ar atal trais ar sail rhywedd, yn enwedig os ydym am atal trais o'r fath ar raddfa'r boblogaeth gyfan. Croesewir cynigion ar gyfer Storfa Ganolog lle y gellir casglu a rheoli gwybodaeth, data a hysbysrwydd am yr hyn sy'n gweithio i atal trais ar sail rhywedd, a gwneud y pethau hyn yn hygyrch. Fodd bynnag, rhaid i'r Storfa wneud mwy na storio gwybodaeth. Dylai hyrwyddo'r arfer o rannu gwybodaeth yn rhagweithiol ymhlith sefydliadau, a gweithredu fel catalydd ar gyfer arloesedd a phenderfyniadau mwy gwybodus. Mae'r hinsawdd ariannol heriol yn codi cwestiynau ynghylch p'un a fydd cyllid ar gael i asesu a gwerthuso effaith a chanlyniadau ymyriadau'n effeithiol. Mae'r data hyn yn hanfodol i ddeall a yw'r strategaeth genedlaethol a'r dull glasbrint yn effeithiol.

Cam Gweithredu 3. Dylai Llywodraeth Cymru bennu'r amserlenni ar gyfer creu'r Storfa Ganolog a sut y bydd y storfa yn cefnogi cydweithredu, rhannu gwybodaeth ac yn hwyluso ymchwil. Yn benodol, dylai Llywodraeth Cymru nodi cyfleoedd ar gyfer ymchwilio i ymyriadau sy'n ymgysylltu â dynion a bechgyn yn benodol er mwyn ychwanegu at y sylfaen dystiolaeth ar y mater hwn.

[32] Uned Atal Trais, Beth sy'n Gweithio i Atal Trais yn erbyn Menywod, Cam-drin Domestig a Thrais Rhywiol?, Medi 2021

## Mater croestoriadol

**34.** Nododd Lara Snowdon o ICC, er bod rhywedd yn fater canolog, bod tlodi, hil, rhywioldeb a chrefydd oll yn elfennau perthnasol s y'n ysgogi achosion o drais ar sail rhywedd.[33] Roedd ein Grŵp Cynghori, y Cynghorwyr Cenedlaethol ar gyfer Trais yn erbyn Menywod, Cam-drin Domestig a Thrais Rhywiol, Cymorth i Ferched Cymru ac Anabledd Dysgu Cymru yn rhannu'r farn honno.[34]

**35.** Roedd Dr Nathan Eisenstadt o Brifysgol Bryste yn cytuno â hyn, a dywedodd ei fod yn credu bod tlodi yn un o'r ffactorau risg uchaf ar gyfer cyflawni trais ar sail rhywedd ac ar gyfer dioddef trais o'r fath.[35] Dywedodd Oliver Townsend o Platfform mai un o'r ymyriadau amlycaf y gellir parhau i'w ddatblygu yw trechu tlodi.[36]

**36.** Dywedodd Coleg Brenhinol y Seiciatryddion wrthym hefyd fod yn rhaid i bolisi trais ar sail rhywedd edrych ymhellach na rhywedd yn unig a dilyn dull croestoriadol, a hynny am resymau'n ymwneud â chyfiawnder cymdeithasol a thegwch iechyd.[37] Rhannwyd y farn honno gan Natalie Russell a Dr Lora Adair o Brifysgol Brunel Llundain.[38]

**37.** Pwysleisiodd Cymdeithas Seicolegol Prydain yr angen i ymyriadau adlewyrchu cyd-destunau diwylliannol.[39] Dywedodd Pwyllgor Trais yn Erbyn Menywod a Merched y Bwrdd Cenedlaethol Menywod Catholig:

> *"Primary prevention messages may be more accessible to women of faith in the context and language of their faith community, and when they demonstrate awareness of and respect for their faith or spirituality."*[40]

[33] Noder: cyfeirir at hyn yn aml fel "croestoriadedd"; y Pwyllgor Cydraddoldeb a Chyfiawnder Cymdeithasol, 22 Mai 2023, Cofnod y Trafodion, paragraff 19
[34] Cynghorwyr Cenedlaethol ar gyfer Trais yn erbyn Menywod, tystiolaeth ysgrifenedig; Cymorth i Ferched Cymru, tystiolaeth ysgrifenedig; Anabledd Dysgu Cymru, tystiolaeth ysgrifenedig
[35] Y Pwyllgor Cydraddoldeb a Chyfiawnder Cymdeithasol, 12 Mehefin 2023, Cofnod y Trafodion, paragraff 260
[36] Y Pwyllgor Cydraddoldeb a Chyfiawnder Cymdeithasol, 22 Mai 2023, Cofnod y Trafodion, paragraff 186
[37] Coleg Brenhinol y Seiciatryddion, tystiolaeth ysgrifenedig
[38] Natalie Russell a Dr Lora Adair, Prifysgol Brunel Llundain, tystiolaeth ysgrifenedig
[39] Cymdeithas Seicolegol Prydain, tystiolaeth ysgrifenedig
[40] Pwyllgor Trais yn Erbyn Menywod a Merched y Bwrdd Cenedlaethol Menywod Catholig, tystiolaeth ysgrifenedig

**38.** Croesawodd Lara Snowdon y gydnabyddiaeth o ddull croestoriadol o fewn y strategaeth ar gyfer trais yn erbyn menywod, cam-drin domestig a thrais rhywiol, ond ychwanegodd fod ffordd bell i fynd i sicrhau bod amrywiaeth yng Nghymru yn cael ei chynrychioli wrth weithredu'r strategaeth.[41]

**39.** Roedd argymhelliad 15 o'n hadroddiad ar drais ar sail rhywedd ac anghenion menywod mudol yn galw ar Lywodraeth Cymru i ddiwygio ei strategaeth ar gyfer trais yn erbyn menywod, cam-drin domestig a thrais rhywiol i gynnwys adran sy'n ymdrin yn benodol ag anghenion menywod a phlant mudol.[42] Cafodd yr argymhelliad hwn ei dderbyn gan Lywodraeth Cymru:

> *"Mae'r strategaeth eisoes yn mynd i'r afael â chefnogi dioddefwyr mudol VAWDASV, gan gynnwys y rhai heb hawl i arian cyhoeddus, fel un o'r blaenoriaethau allweddol y gellir ei fodloni o dan ein cynllun cyflawni, sy'n tynnu sylw at y ffordd y bydd Llywodraeth Cymru yn "Parhau i weithio gyda Llywodraeth y DU a phartneriaid eraill i ddod o hyd i atebion priodol i ddiwallu anghenion goroeswyr trais yn erbyn menywod, cam-drin domestig a thrais rhywiol nad oes ganddynt unrhyw ffordd o gael gafael ar arian cyhoeddus oherwydd eu statws mewnfudo, yn unol â Chynllun Gweithredu Cenedl Noddfa Llywodraeth Cymru". Bydd hyn yn parhau i fod yn ffocws polisi allweddol dros y pedair blynedd nesaf a chaiff unrhyw newidiadau i'r Strategaeth eu hystyried fel rhan o Ystyriaethau Ffrydiau Gwaith y Strategaeth."*[43]

**40.** Nododd Yasmin Khan, sef y Cynghorydd Cenedlaethol ar drais yn erbyn menywod, cam-drin domestig a thrais rhywiol, fod y Ddeddf Trais yn erbyn Menywod, Cam-drin Domestig a Thrais Rhywiol yn rhoi sylw arbennig i gam-drin ar sail anrhydedd, ac y gall dioddefwyr cam-drin ar sail anrhydedd hefyd fod yn ddioddefwyr cam-drin rhywiol, priodas dan orfod neu anffurfio organau cenhedlu benywod. Roedd yn cytuno â Lara Snowdon fod gwybodaeth a dealltwriaeth o gam-drin ar sail anrhydedd yn anghyson.[44]

[41] Y Pwyllgor Cydraddoldeb a Chyfiawnder Cymdeithasol, 22 Mai 2023, Cofnod y Trafodion, paragraff 21
[42] Y Pwyllgor Cydraddoldeb a Chyfiawnder Cymdeithasol, Trais ar sail rhywedd: anghenion menywod mudol, Hydref 2022
[43] Ymateb Llywodraeth Cymru i adroddiad y Pwyllgor Cydraddoldeb a Chyfiawnder Cymdeithasol ar drais ar sail rhywedd ac anghenion menywod mudol, Rhagfyr 2022
[44] Y Pwyllgor Cydraddoldeb a Chyfiawnder Cymdeithasol, 22 Mai 2023, Cofnod y Trafodion, paragraff 226

**41.** Dywedodd Dr Claire Fox a Dr Caroline Miles o Brifysgol Manceinion fod angen gwneud llawer mwy i adnabod dangosyddion cynnar cam-drin ar sail anrhydedd, ac i ymateb yn effeithiol iddynt.[45]

**42.** Yn ôl y Gweinidog, mae Llywodraeth Cymru yn ariannu sefydliadau arbenigol sy'n gweithio gyda chymunedau i godi ymwybyddiaeth o effaith y math hwn o gamdriniaeth gyda'r bwriad o'i atal cyn iddo ddigwydd.[46] Nododd fod adnoddau wedi'u dosbarthu i athrawon i godi ymwybyddiaeth o anffurfio organau cenhedlu benywod a'r arwyddion posibl bod risg o hynny:

> *"Ym mis Hydref 2020, dyfarnwyd contract hyfforddiant codi ymwybyddiaeth i Karma Nirvana, gwasanaeth arbenigol sy'n cefnogi dioddefwyr a goroeswyr cam-drin ar sail anrhydedd, i ddarparu 20 o 'sioeau teithiol' rhithwir am ddim i weithwyr proffesiynol sy'n gweithio yng Nghymru i feithrin eu hyder wrth herio achosion o gam-drin ar sail anrhydedd a phriodasau dan orfod."*

**43.** Nododd ein Grŵp Cynghori fod gwasanaethau weithiau'n anwybyddu profiadau pobl anabl o gam-drin domestig a/neu drais rhywiol. Dywedodd y Grŵp wrthym fod rhai manylion nodedig o brofiadau pobl anabl sy'n gallu golygu'n aml bod cyfrifoldeb arnynt i egluro'r risgiau ychwanegol y maent yn eu hwynebu.

**44.** Soniodd Comisiynydd Pobl Hŷn Cymru a Plan International UK am y diffyg data a thystiolaeth yn ymwneud â chroestoriadedd yn gyffredinol, ac yn achos y Comisiynydd Pobl Hŷn, ddiffyg data a thystiolaeth am gam-drin pobl hŷn yn benodol.[47] Nododd Plan International UK mai cyfyngedig yw'r data ar hunaniaeth o ran rhywedd, gan gynnwys profiadau pobl drawsryweddol neu anneuaidd.[48]

**45.** Roedd Anabledd Dysgu Cymru yn feirniadol o'r diffyg sylw i bobl draws yn y Glasbrint.[49]

**46.** Dywedodd y Gweinidog fod Llywodraeth Cymru yn ymwybodol iawn o effaith groestoriadol ac anghymesur trais yn erbyn menywod, cam-drin domestig a thrais rhywiol:

---

[45] Dr Claire Fox a Dr Caroline Miles, Prifysgol Manceinion, tystiolaeth ysgrifenedig
[46] Llywodraeth Cymru, papur tystiolaeth
[47] Comisiynydd Pobl Hyn Cymru, tystiolaeth ysgrifenedig
[48] Plan International UK, tystiolaeth ysgrifenedig
[49] Anabledd Dysgu Cymru, tystiolaeth ysgrifenedig

> *"This makes it all the more important that the work is underpinned throughout by robust equality data and evidence."*

**47.** Cadarnhaodd y Gweinidog fod yr Is-adran Tystiolaeth a Chefnogaeth ar gyfer Cydraddoldeb, Tlodi a Phlant yn darparu cymorth dadansoddol ar gyfer datblygu, monitro a gwerthuso'r polisi trais yn erbyn menywod, cam-drin domestig a thrais rhywiol.[50]

## Ein barn ni

Mae mynd i'r afael â chroestoriadedd yn bwysig oherwydd gall unigolion gael gwahanol brofiadau o drais ar sail rhywedd yn dibynnu ar ffactorau croestoriadol amrywiol, megis hil, dosbarth, cyfeiriadedd rhywiol, hunaniaeth rhywedd, ac anabledd. Dylem weithio tuag at greu amgylcheddau lle y gall unigolion gael mynediad at wasanaethau, waeth beth fo'u hunaniaethau croestoriadol. Er mwyn cyflawni hyn, mae'n hollbwysig bod Llywodraeth Cymru yn parhau â'i gwaith i wella'r broses o gasglu data gan gynnwys cofnodi profiadau unigolion sy'n wynebu mwy nag un math o wahaniaethu. Wrth ddatblygu polisi yn y dyfodol, nodwn y bydd yr Is-adran Tystiolaeth a Chefnogaeth ar gyfer Cydraddoldeb, Tlodi a Phlant yn darparu cymorth dadansoddol. Fodd bynnag, nid yw'n glir sut y bydd y gwaith hwn yn rhyngweithio â'r Unedau Tystiolaeth Cydraddoldeb, Hil ac Anableddau. Er mwyn osgoi dyblygu gwaith, mae'n hollbwysig eu bod yn cydweithio i ddarparu tystiolaeth a data cadarn a all lywio datblygiad polisi Llywodraeth Cymru.

Yn fwy cyffredinol, mae gwella'r modd y cesglir ac y defnyddir data i lywio penderfyniadau wedi bod yn thema fwy neu lai ym mhob un o'n hymchwiliadau a'n ffrydiau gwaith. Mae Llywodraeth Cymru, yn ei thro, wedi cydnabod hyn, ac wedi creu'r Unedau Tystiolaeth arbenigol i lywio ei dull gweithredu. Fodd bynnag, a ninnau wedi cyrraedd canol tymor y Senedd hon, rydym yn awyddus i ddata a dadansoddiadau o'r Unedau ddechrau cyfrannu'n ystyrlon at y broses o ddatblygu a gwerthuso polisi. Nawr, mae angen i Lywodraeth Cymru ddarparu eglurder o ran y blaenoriaethau a'r amserlenni ar gyfer pryd y mae'n disgwyl i gerrig milltir allweddol gael eu cyflawni.

**Argymhelliad 3.** Dylai Llywodraeth Cymru nodi sut y bydd data, tystiolaeth a dadansoddiadau yn llywio'r gwaith o ddatblygu a gwerthuso polisïau sy'n mynd i'r

[50] Llythyr gan y Gweinidog Cyfiawnder Cymdeithasol a'r Prif Chwip, 19 Hydref 2023

afael â chroestoriadedd trais ar sail rhywedd. Yn benodol, dylai Llywodraeth Cymru sicrhau bod eglurder i'r Unedau Tystiolaeth Cydraddoldeb, Hil ac Anableddau ynghylch eu blaenoriaethau, a chytuno ar amserlenni ar gyfer cwblhau cerrig milltir allweddol erbyn diwedd Ebrill 2024. Dylai'r ymateb gynnwys manylion am:

- y dyddiad targed ar gyfer cwblhau'r gwaith o sefydlu data gwaelodlin a chrynodeb o'r dangosyddion gwaelodlin y mae'n bwriadu eu defnyddio;
- y partneriaid y bydd yn gweithio gyda nhw i gasglu data gwaelodlin a'r dyddiad targed ar gyfer prif ffrydio ymdrechion o ran casglu data; a
- pryd y mae'n rhagweld y bydd y data a gesglir gan yr Unedau yn gallu cyfrannu'n ystyrlon at ddatblygu a gwerthuso polisi.

Cam Gweithredu 4. Nodwyd rhai o'r heriau penodol a wynebir gan fenywod mudol yn ein hadroddiad: 'Trais ar sail rhywedd: Anghenion menywod mudol'. Byddwn yn gofyn i argymhellion a chasgliadau'r adroddiad hwnnw gael eu diweddaru yng Ngwanwyn 2024.

## Dull sy'n ystyriol o drawma

**48.** Yn 2022, cyhoeddodd Hyb ACE Cymru a Straen Trawmatig Cymru adroddiad ar y cyd yn dwyn y teitl 'Cymru sy'n Ystyriol o Drawma', a dywedodd Oliver Townsend fod yr adroddiad yn ddatganiad da iawn o fwriad ar lefel polisi.[51]

**49.** Uchelgais Llywodraeth Cymru yw sefydlu dull sy'n ystyriol o drawma ar draws gwasanaethau cyhoeddus. Dywedodd Dr Joanne Hopkins, Cyfarwyddwr Hyb ACE Cymru a'r Athro Jon Bisson, Cyfarwyddwr Straen Trawmatig Cymru wrth y Pwyllgor Iechyd a Gofal Cymdeithasol:

> *"We want to see public services, third sector organisations, communities and individuals adopting this Framework and embedding it into practice, so that all interactions with each other and the people we serve, are based on a trauma-informed approach."*[52]

[51] ACE Hub Cymru, Trauma-informed Wales: A Societal Approach to Understanding, Preventing and Supporting the Impacts of Trauma and Adversity; Y Pwyllgor Cydraddoldeb a Chyfiawnder Cymdeithasol, 22 Mai 2023, Cofnod y Trafodion, paragraff 87
[52] Y Pwyllgor Iechyd a Gofal Cymdeithasol, Papur i'w nodi 3.5 Llythyr gan Hyb ACE Cymru a Straen Trawmatig Cymru ynglŷn â'r Fframwaith Cenedlaethol Cymru sy'n Ystyriol o Drawma, 12 Gorffennaf 2023

**50.** Soniodd tystion am y cyfraniad y gellir ei wneud drwy ddull iechyd perthynol sy'n ystyriol o drawma wrth atal trais ar sail rhywedd, yn enwedig wrth dorri cylchoedd o ymddygiad ymosodol a threisgar rhwng y cenedlaethau.

**51.** Nododd Oliver Townsend fod llawer o'r bobl sy'n achosi niwed eu hunain wedi dioddef niwed yn y gorffennol.[53]

**52.** Er ei bod yn gefnogol i ddull sy'n ystyriol o drawma, roedd Johanna Robinson, sef y Cynghorydd Cenedlaethol ar gyfer trais yn erbyn menywod, cam-drin domestig a thrais rhywiol, yn cwestiynu effeithiolrwydd yr hyfforddiant presennol.[54]

**53.** Mynegodd ein Grŵp Cynghori ddiffyg hyder yn yr heddlu wrth ymdrin ag achosion o gam-drin domestig. Dywedodd Dafydd Llywelyn, Comisiynydd Heddlu a Throseddu Dyfed-Powys, fod heddluoedd Cymru wedi ymroi i ddeall profiadau niweidiol yn ystod plentyndod, sydd bellach yn darparu fframwaith ar gyfer plismona rheng flaen.[55]

**54.** Dywedodd Amanda Blakeman, Prif Gwnstabl Heddlu Gogledd Cymru, wrthym:

> *"… we make sure that we can really be on top of the training that our officers need to be able to spot those early points either with a family, with a young person, in whatever setting, so we can be more trauma-informed, and we can make sure that those early warning mechanisms are set off."*[56]

**55.** Soniodd y Prif Gwnstabl Blakeman am rôl hysbysiadau diogelu'r cyhoedd wrth ymyrryd yn gynnar.[57] Mae hysbysiadau diogelu'r cyhoedd yn ddogfennau rhannu gwybodaeth sy'n cofnodi pryderon am ddiogelwch oedolyn neu blentyn, ac fe'u defnyddir i lywio ymateb amlasiantaeth.[58]

---

[53] Y Pwyllgor Cydraddoldeb a Chyfiawnder Cymdeithasol, 22 Mai 2023, Cofnod y Trafodion, paragraff 90
[54] Y Pwyllgor Cydraddoldeb a Chyfiawnder Cymdeithasol, 22 Mai 2023, Cofnod y Trafodion, paragraff 237
[55] Y Pwyllgor Cydraddoldeb a Chyfiawnder Cymdeithasol, 10 Gorffennaf 2023, Cofnod y Trafodion, paragraff 6
[56] Y Pwyllgor Cydraddoldeb a Chyfiawnder Cymdeithasol, 10 Gorffennaf 2023, Cofnod y Trafodion, paragraff 9
[57] Y Pwyllgor Cydraddoldeb a Chyfiawnder Cymdeithasol, 10 Gorffennaf 2023, Cofnod y Trafodion, paragraff 10
[58] Arolygiaeth Cwnstabliaeth Ei Mawrhydi, 'Public Protection Notices'

**56.** Soniodd cynrychiolwyr yr heddlu hefyd am fodel 'hybiau cymorth cynnar' sy'n gweithio gyda Swyddogion Cymorth Cymunedol yr Heddlu a phartneriaid lleol i adnabod problemau neu risgiau posibl gan gynnwys plant a theuluoedd sy'n profi cam-drin domestig.[59]

**57.** Cadarnhaodd Emma Wools, Dirprwy Gomisiynydd Heddlu a Throseddu De Cymru:

> *"As part of a trauma-informed approach to safeguarding, forces across Wales are developing partnership agreements for referring those affected by VAWDASV to early help services, where statutory safeguarding thresholds are not met. It is acknowledged that local arrangements are currently different in each area, but the Blueprint structure will influence shared learning and the development of good practice models across Wales."*[60]

## Cymorth therapiwtig i blant a phobl ifanc

**58.** Mynegodd ein Grŵp Cynghori bryderon difrifol ynghylch yr effaith ar blant a phobl ifanc o fod yn dyst i gam-drin domestig, profiadau niweidiol yn ystod plentyndod a thrawma cynnar.

**59.** Mae'r Fframwaith Ystyriol o Drawma yn cydnabod yr effaith ar unigolion yn sgil profiadau dirdynnol ac adfyd sy'n deillio o drais rhywiol, neu'r effaith ar blant o gael eu magu ar aelwyd lle maent yn dyst i drais domestig.[61]

**60.** Roedd y dystiolaeth a glywsom yn canolbwyntio llai ar ymyriadau ataliol mewn achosion o gam-drin domestig ar gyfer plant a phobl ifanc ac yn fwy ar yr angen am gymorth i blant a phobl ifanc a oedd wedi bod yn dyst i gam-drin domestig am gyfnod hir neu'n rheolaidd, gan gynnwys cam-drin ar ôl gwahanu.

**61.** Dywedodd ein Grŵp Cynghori y bu'n amhosibl cael gwasanaeth cwnsela a therapi i'w plant. Roedd goroeswyr yn teimlo dicter ynghylch y diffyg cymorth sydd ar gael i helpu eu plant i brosesu eu profiadau a'u hemosiynau mewn man diogel, ac i gysylltu ag eraill sydd wedi wynebu sefyllfaoedd tebyg. Dywedodd y

---

[59] Y Pwyllgor Cydraddoldeb a Chyfiawnder Cymdeithasol, 10 Gorffennaf 2023, Cofnod y Trafodion, paragraff 17
[60] Llythyr gan Emma Wools, Dirprwy Gomisiynydd yr Heddlu a Throseddu De Cymru, 25 Awst 2023
[61] Datganiad Ysgrifenedig: Cynllun Llywodraeth Cymru i atal Profiadau Niweidiol yn ystod Plentyndod, Ionawr 2022

Cynghorydd Cenedlaethol Johanna Robinson bod prinder dybryd o wasanaethau therapi i blant a phobl ifanc.[62]

**62.** Soniodd Barnardo's Cymru am dystiolaeth gynyddol yn dangos os yw plant yn byw mewn teuluoedd lle ceir cam-drin domestig, y gallent ddioddef effeithiau emosiynol hirdymor difrifol.[63]

**63.** Dywedodd Dr Jen Daffin:

> *"There's not an appropriate evidence base yet. It's developing, and colleagues in Traumatic Stress Wales and other areas are doing really great work on that, but it isn't routinely available to children in the same way that it is to adults. We don't have a developmental trauma diagnosis, we don't have a post-traumatic stress diagnosis, and intervention packages that go alongside those, for children."*[64]

**64.** Dywedodd Yasmin Khan wrthym fod yna broblemau gwirioneddol a bylchau gwirioneddol mewn gwasanaethau ar gyfer yr oedran drosiannol 16-19 oed. Dywedodd mai dyma'r oedran mwyaf ansefydlog sy'n cyflwyno'r heriau mwyaf i wasanaethau:

> *"If there's anything that can be presented from today, around children and young people, and the gaps in services, surely this must be one of the key priorities. It needs to be a key priority, because what we are teaching young people who have been failed before is that there are going to be no easy routes to adulthood, and I think this is something that we really need to have a much sharper focus on."*[65]

**65.** Fe wnaethom ofyn i'r Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol ddarparu manylion ynghylch gwasanaethau cwnsela mewn ysgolion ar gyfer pobl ifanc a allai fod wedi bod yn dyst i drais ar sail rhywedd neu wedi cael profiad o drais o'r fath.[66] Soniodd y Gweinidog am becyn cymorth Llywodraeth Cymru ar

---

[62] Y Pwyllgor Cydraddoldeb a Chyfiawnder Cymdeithasol, 22 Mai 2023, Cofnod y Trafodion, paragraff 240
[63] Barnardo's Cymru, tystiolaeth ysgrifenedig
[64] Y Pwyllgor Cydraddoldeb a Chyfiawnder Cymdeithasol, 22 Mai 2023, Cofnod y Trafodion, paragraff 166
[65] Y Pwyllgor Cydraddoldeb a Chyfiawnder Cymdeithasol, 22 Mai 2023, Cofnod y Trafodion, paragraff 246
[66] Llythyr at y Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol, 25 Medi 2023

gyfer cwnsela mewn ysgolion ac yn y gymuned, a gyhoeddwyd yn 2020, ac sy'n helpu awdurdodau lleol i ddatblygu a gweithredu eu polisïau a'u gwasanaethau cwnsela. Dywedodd fod 12,500 o blant a phobl ifanc wedi defnyddio'r gwasanaeth yn 2021/22 a bod modd i ysgolion, aelodau'r teulu ac unigolion eu hunain wneud atgyfeiriadau.[67]

**66.** Dywedodd y Dirprwy Weinidog Gwasanaethau Cymdeithasol wrthym fod hyfforddiant arbenigol yn cael ei ddarparu i'r gweithlu gofal cymdeithasol i gefnogi'r gwaith o adnabod, asesu a chefnogi achosion lle bu trais yn erbyn menywod, cam-drin domestig a thrais rhywiol ymhlith menywod a phlant.[68] Dywedodd fod gweithwyr iechyd a gofal cymdeithasol proffesiynol yn grŵp a flaenoriaethir yn y canllawiau statudol ar gyfer derbyn hyfforddiant 'Gofyn a Gweithredu'.

**67.** Fe wnaeth y Gweinidog a'r Dirprwy Weinidog Gwasanaethau Cymdeithasol gydnabod bod angen 'dull system gyfan' a bod Llywodraeth Cymru yn gwella'r gwaith o ymgysylltu a chyflawni trawsasiantaethol. Dywedasant fod gwaith ar y gweill i ddatblygu a chyflwyno Fframwaith Arfer Cenedlaethol a'r set gyntaf o safonau cenedlaethol ar gyfer gwasanaethau plant yng Nghymru.[69]

## Ein barn ni

Rydym yn canmol Llywodraeth Cymru am hyrwyddo dull sy'n ystyriol o drawma mewn amrywiaeth o leoliadau, gan gynnwys gofal iechyd, ysgolion a gwasanaethau cymdeithasol. Mae'r dull hwn yn allweddol i gydnabod effaith trawma ac yn pwysleisio'r angen am sensitifrwydd ac empathi mewn gofal.

Er ein bod hefyd yn cydnabod yr ymdrechion a wnaed gan heddluoedd Cymru i fynd ati'n rhagweithiol i wella eu hymateb i achosion o drais ar sail rhywedd, roedd yn destun pryder inni glywed am brofiadau negyddol ein Grŵp Cynghori. Rhaid i asiantaethau gorfodi'r gyfraith – gan gynnwys yr heddlu, Gwasanaeth Erlyn y Goron, y llys teulu a CAFCASS – ystyried y materion hyn sy'n ymwneud ag ymddiriedaeth. Roedd yn amlwg i ni bod rhai menywod yn poeni y gallai cysylltu â'r heddlu gael effaith negyddol ar y trefniadau o ran cadw eu plant. Rhaid mynd i'r afael â hyn.

[67] Llythyr gan y Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol, 9 Hydref 2023
[68] Llythyr gan y Dirprwy Weinidog Gwasanaethau Cymdeithasol, 10 Hydref 2023
[69] Llythyr gan y Gweinidog Cyfiawnder Cymdeithasol a'r Prif Chwip a'r Dirprwy Weinidog Gwasanaethau Cymdeithasol, 18 Hydref 2023

Roeddem yn hynod bryderus o glywed am y trafferthion y mae plant a phobl ifanc yn eu profi o ran cael cymorth therapiwtig. Er mwyn cydymffurfio â'i dyletswydd i atal niwed rhag digwydd yn y dyfodol o dan Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol, mae'n rhaid i Lywodraeth Cymru ddangos mwy o arweiniad drwy sicrhau bod pob baban, plentyn a pherson ifanc sy'n profi trais neu sy'n dyst i drais yn cael mynediad at wasanaethau gofal a chymorth therapiwtig penodol, arbenigol drwy lwybr carlam.[70] Mae'n annerbyniol bod teuluoedd yn ei chael hi'n anodd cael mynediad at ofal, sy'n hanfodol ar gyfer iachâd ac adferiad. Rhaid mynd i'r afael â hyn os ydym am dorri'r cylch treisgar ar gyfer y genhedlaeth nesaf.

Rydym yn nodi'r gwaith sy'n cael ei wneud ar Fframwaith Arfer Cenedlaethol newydd ar gyfer Gwasanaethau Plant, ac rydym yn disgwyl y bydd yn delio â'r materion hyn. At hynny, dylai Llywodraeth Cymru adolygu pa wasanaethau therapi sy'n bodoli ar hyn o bryd ar gyfer plant a phobl ifanc sy'n profi trais yn y cartref neu sy'n dyst i drais o'r fath, gan gynnwys pa mor dda yw gwasanaethau trawma ac iechyd meddwl integredig o fewn y systemau gofal iechyd ac addysg ehangach i'w gwneud yn haws i deuluoedd gael cymorth.

**Argymhelliad 4.** Dylai Llywodraeth Cymru gymryd camau ar fyrder i sicrhau bod gwasanaethau therapi chwim penodol ac arbenigol ar gael i bob baban, plentyn a pherson ifanc sy'n profi trais ar sail rhywedd neu sy'n dyst i drais o'r fath, a dylai fanylu ar y camau hyn yn ei hymateb i'r adroddiad hwn. Dylai hyn gynnwys:

- manylion am sut y mae Llywodraeth Cymru yn gorfodi hawliau babanod, plant a phobl ifanc sydd wedi profi trais neu sydd wedi bod yn dyst i drais i gael mynediad at wasanaethau therapi penodol ac arbenigol drwy lwybr carlam;
- adolygu'r gwasanaethau therapi sydd ar gael i blant a phobl ifanc sydd wedi profi trais neu sydd wedi bod yn dyst i drais, a pha mor dda y mae'r gwasanaethau hyn wedi'u hintegreiddio i'r system iechyd ac addysg ehangach.

Dylai'r gwaith hwn gynnwys yr holl randdeiliaid perthnasol (gan gynnwys yr heddlu, CAFCASS a gwasanaethau cymdeithasol awdurdodau lleol), a rhaid bwrw ymlaen â'r gwaith ar fyrder gyda diweddariad yn cael ei roi i'r Senedd yn nhymor yr hydref 2024.

[70] Megis y gwasanaethau a ddarperir gan 'the Domestic Violence Intervention Project'

# 3. Addysg, ymyriadau cynnar a mesurau atal

Mae angen atgyfnerthu negeseuon ym mhobman… ar draws pob oedran ac ar draws y gymdeithas gyfan.[71]

**68.** Dywedodd Anne-Marie Lawrence o Plan International UK fod angen atgyfnerthu negeseuon ym mhobman, a phwysleisiodd bwysigrwydd dull gweithredu sy'n berthnasol i gwrs bywyd cyfan:

> *"education throughout the life course is essential in challenging and changing some of these social norms, and that we need to see this modelled everywhere, from our national leadership through to our schools and throughout our communities as well."*[72]

## Ysgolion a lleoliadau addysg

**69.** Roedd y rhan fwyaf o'r tystion ynghyd â'n Grŵp Cynghori yn cytuno bod lleoliadau addysg yn lleoedd hollbwysig ar gyfer cymryd mesurau ataliol drwy ddulliau iechyd y cyhoedd. Pwysleisiodd Estyn a Barnardo's Cymru rôl ysgolion o ran atal trais ar sail rhywedd a chefnogi dysgwyr.[73] Nododd Cymdeithas Seicolegol Prydain:

> *"Children spend a significant amount of time in schools so what they experience in the classroom, on the playground, and with their peers, will impact on their views and behaviours towards others. Schools are in a unique position to positively shape children's views through an awareness about safe, equal and healthy relationships and translating these into practice."*[74]

[71] Y Pwyllgor Cydraddoldeb a Chyfiawnder Cymdeithasol, 12 Mehefin 2023, Cofnod y Trafodion, cyfieithiad o baragraff 106
[72] Y Pwyllgor Cydraddoldeb a Chyfiawnder Cymdeithasol, 12 Mehefin 2023, Cofnod y Trafodion, paragraff 6
[73] Tystiolaeth ysgrifenedig, Estyn; Barnardo's Cymru
[74] Cymdeithas Seicolegol Prydain, tystiolaeth ysgrifenedig Barnardo's Cymru, tystiolaeth ysgrifenedig

**70.** Rhybuddiodd Anne-Marie Lawrence na ellir gwneud hyn mewn ysgolion yn unig.[75]

**71.** Mae'r Rhwydwaith Ymchwil Iechyd Ysgolion yn cynnal arolwg o blant a phobl ifanc yng Nghymru bob dwy flynedd, ac mae'n cynnwys cwestiynau am drais wrth ganlyn neu mewn perthnasoedd ac ymddygiadau rhywiol. Mae'r data yn helpu i feithrin dealltwriaeth o brofiad ysgolion o ran y pynciau hyn. Fe wnaeth y Rhwydwaith Ymchwil Iechyd Ysgolion gwblhau adolygiad systematig o ymyriadau mewn ysgolion, gan gynnwys gweithgareddau yn yr ystafell ddosbarth ar gyfer disgyblion, ymyrraeth gan rieni, gweithgareddau gydag athrawon ysgol, ac amgylchedd yr ysgol (er mai dim ond un o'r ymyriadau a gynhwyswyd yn yr adolygiad oedd wedi'i leoli yn y DU). Nododd yr adolygiad mai ymyriadau sy'n tueddu i fod fwyaf llwyddiannus yw'r ymyriadau a wneir yn yr ysgol gan ganolbwyntio ar drais ymhlith y glasoed wrth iddynt ganlyn.

**72.** Mae hyn yn gyson ag Asesiad Systematig o Dystiolaeth ICC, a ganfu fod ymyriadau mewn achosion o drais wrth ganlyn yn yr ysgol yn dangos llwyddiant sylweddol wrth greu agweddau tegwch rhwng y rhywiau ymhlith bechgyn a merched.[76]

## Dull ysgol gyfan

**73.** Dywedodd Plan International UK mai ymyriadau 'ysgol gyfan' yw'r dulliau mwyaf effeithiol fel arfer gan eu bod yn gweithio ar sawl lefel.[77] Roedd Pwyllgor Trais yn Erbyn Menywod a Merched y Bwrdd Cenedlaethol Menywod Catholig a Barnardo's Cymru yn cefnogi hyn yn gryf, a dywedodd NSPCC Cymru wrthym:

> *"A whole school approach will enable entire schools and communities to have a shared understanding of their responsibilities."*[78]

**74.** Fodd bynnag, dadleuodd Dr Honor Young o'r Rhwydwaith Ymchwil Iechyd Ysgolion y gall ymyriadau unigol yn aml fod yn fwy dylanwadol. Dywedodd fod nifer y newidiadau sylweddol y gofynnir i ysgolion eu gwneud ar hyn o bryd, a phwysau o sawl cyfeiriad ar amser y staff:

[75] Y Pwyllgor Cydraddoldeb a Chyfiawnder Cymdeithasol, 12 Mehefin 2023, Cofnod y Trafodion, paragraff 41
[76] Iechyd Cyhoeddus Cymru, Uned Atal Trais, Beth sy'n Gweithio i Atal Trais yn erbyn Menywod, Cam-drin Domestig a Thrais Rhywiol?, Medi 2021
[77] Plan International UK, tystiolaeth ysgrifenedig
[78] NSPCC Cymru, tystiolaeth ysgrifenedig

> *"… where there's maybe less capacity, fewer resources perhaps in more deprived areas, really, basic safety is perhaps most important, reducing the harmful behaviours. And, in areas where there is more capacity more resource, it may be possible to promote some of the more pro-social behaviours."*[79]

**75.** Cytunodd y Gweinidog Addysg fod angen cysylltu bob agwedd ar feddylfryd a gweithrediadau ysgolion a'r cwricwlwm, gan wneud hynny'n effeithiol os am fod yn llwyddiannus, a bod disgwyliad bod ysgolion yn cyflawni hyn.[80]

**76.** Dywedodd y Gweinidog Cyfiawnder Cymdeithasol wrthym fod Llywodraeth Cymru yn ariannu prosiect Sbectrwm Hafan Cymru, sy'n hyrwyddo perthnasoedd iach ac yn darparu hyfforddiant i staff ysgolion a llywodraethwyr am effaith cam-drin domestig ar blentyn.[81]

**77.** Fodd bynnag, daeth Estyn i'r casgliad, er bod y ddarpariaeth wedi gwella dros amser, nad yw ysgolion bob amser yn cyflawni eu rôl cystal ag y gallent. Cyfeiriodd at dystiolaeth nad yw pob athro yn ymwybodol o'r ddyletswydd orfodol i adrodd ynghylch anffurfio organau cenhedlu benywod er enghraifft.[82]

## Y Cod Addysg Cydberthynas a Rhywioldeb

**78.** Mae cyflwyno'r Cod Addysg Cydberthynas a Rhywioldeb yn cynnig cyfleoedd newydd i ysgolion integreiddio'r gwaith o atal trais ar sail rhywedd mewn lleoliadau addysg.

**79.** Dywedodd y Gweinidog Addysg:

> *"[the RSE Code] is mandatory and it's obviously taught in a way that is age appropriate, but it is clear that recognising harmful, abusive or coercive behaviour in personal relationships is one of its objectives from age 11 onwards, and, more broadly than that, understanding and having an awareness of different kinds of*

[79] Y Pwyllgor Cydraddoldeb a Chyfiawnder Cymdeithasol, 19 Mehefin 2023, Cofnod y Trafodion, paragraff 54
[80] Y Pwyllgor Cydraddoldeb a Chyfiawnder Cymdeithasol, 11 Medi 2023, Cofnod y Trafodion, paragraff 114
[81] Llywodraeth Cymru, papur tystiolaeth
[82] Estyn, tystiolaeth ysgrifenedig

> *harmful or abusive behaviour, including violence on the basis of sex and gender."*[83]

**80.** Ystyriwyd bod gwerthuso'r Cwricwlwm newydd, gan gynnwys y gofyniad statudol ar gyfer Addysg Cydberthynas a Rhywioldeb, i fod yn ddarn o waith hirdymor, o ystyried ei fod yn dal yn ei ddyddiau cynnar.

**81.** Soniodd nifer o dystion – gan gynnwys NSPCC Cymru, Dr Jen Daffin ac Emily van de Venter o ICC – am bwysigrwydd hyfforddiant i athrawon, arweinwyr ysgolion a staff. Gallai hyn alluogi athrawon i gefnogi'n well blant a phobl ifanc sy'n profi trais ar sail rhywedd, a'u hatgyfeirio'n briodol at gymorth.[84]

**82.** Dywedodd Emily van de Venter y byddai hyfforddi staff i ddeall a thrwy hynny ymateb i ymddygiadau a allai fod o ganlyniad i berson ifanc yn profi trawma yn helpu gydag ymyrraeth gynnar.[85]

**83.** Fodd bynnag, rhybuddiodd Anne-Marie Lawrence am y pwysau ar staff, gan ddweud bod angen gwybodaeth a dealltwriaeth arbenigol ar gyfer peth o'r gwaith hwn ac nad yw'n deg parhau i ofyn i ysgolion ymgymryd â hynny.[86]

**84.** Roedd ein Grŵp Cynghori yn cwestiynu a oedd staff yn teimlo eu bod wedi'u grymuso'n ddigonol i weithredu, gan gyfeirio at yr ofnau a allai fod gan staff ynghylch sut i ymdrin ag achos lle bo unigolyn yn datgelu gwybodaeth o'r fath iddynt. Awgrymodd aelodau'r Grŵp y dylid hefyd ystyried diogelu'r sawl y gwneir y datgeliad iddynt, oherwydd natur y datgeliad a allai fod yn drawmatig neu sbarduno ymateb anghysurus.[87]

**85.** Cydnabu'r Gweinidog Addysg y byddai rhai penaethiaid yn croesawu rhagor o gefnogaeth wrth gyflwyno'r elfen Addysg Cydberthynas a Rhywioldeb o'r cwricwlwm yn llwyddiannus.[88]

---

[83] Y Pwyllgor Cydraddoldeb a Chyfiawnder Cymdeithasol, 11 Medi 2023, Cofnod y Trafodion, paragraff 85
[84] NSPCC Cymru, tystiolaeth ysgrifenedig; Y Pwyllgor Cydraddoldeb a Chyfiawnder Cymdeithasol, 22 Mai 2023, Cofnod y Trafodion, paragraff 129
[85] Y Pwyllgor Cydraddoldeb a Chyfiawnder Cymdeithasol, 19 Mehefin 2023, Cofnod y Trafodion, paragraff 143
[86] Y Pwyllgor Cydraddoldeb a Chyfiawnder Cymdeithasol, 12 Mehefin 2023, Cofnod y Trafodion, paragraff 32
[87] Nodiadau gan y Grŵp Cynghori
[88] Y Pwyllgor Cydraddoldeb a Chyfiawnder Cymdeithasol, 11 Medi 2023, Cofnod y Trafodion, paragraff 97

## Ein barn ni

Y Cod Addysg Cydberthynas a Rhywioldeb

Mae ysgolion a lleoliadau addysg yn flaenllaw o ran yr ymdrechion i ymyrryd yn gynnar a chyflwyno mesurau atal. Drwy feithrin diwylliant di-drais gyda pharch a chydraddoldeb, maent yn chwarae rhan allweddol wrth atal trais ar sail rhywedd a chreu arferion a fydd yn para ymhlith plant pan fyddant yn troi'n oedolion. Mae integreiddio cydraddoldeb rhywiol ac atal trais ar sail rhywedd yn y Cwricwlwm newydd i Gymru yn cynnig cyfle euraidd i atgyfnerthu negeseuon i ddysgwyr am egwyddorion cydsynio, parch a pherthnasoedd iach. Er bod trywydd y gwaith hwn yn addawol, mae'n rhy gynnar i asesu effeithiolrwydd cyffredinol y dull gweithredu gan fod angen amser i'r Cwricwlwm newydd ymsefydlu. Serch hynny, roeddem yn bryderus o glywed gan y Rhwydwaith Ymchwil Iechyd Ysgolion fod rhai ysgolion yn dewis gwneud gwaith atal neu'n gallu fforddio gwneud gwaith o'r fath, ac nad yw eraill yn gallu gwneud hynny, yn enwedig mewn ardaloedd difreintiedig. Nid yw hyn yn briodol a dylai Llywodraeth Cymru ofyn i Estyn ymchwilio i weld a yw pob ysgol yn dyrannu digon o adnoddau i wreiddio addysg am berthnasoedd iach ym mhob agwedd ar fywyd mewn ysgolion.

**Argymhelliad 5.** Dylai Llywodraeth Cymru ofyn i Brif Arolygydd Estyn dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru gynnal adolygiad thematig cenedlaethol o berthnasoedd iach mewn ysgolion. Dylai'r adolygiad:

- cynnwys sylwadau ac argymhellion ar ddigonolrwydd adnoddau a hyfforddiant ar gyfer addysgu plant am gydberthnasoedd iach;
- ceisio cadarnhau a oes unrhyw gysylltiad rhwng diffyg darpariaeth a lefelau uwch o amddifadedd; a
- nodi'r arfer gorau o ran 'dulliau ysgol gyfan' wrth atal trais ar sail rhywedd.

Dylid cynnwys yr adolygiad yn y rhaglen adolygiadau thematig nesaf sydd ar gael, a dylid ei gwblhau o fewn yr amserlenni arferol.

Anffurfio Organau Cenhedlu Benywod

Roeddem yn bryderus o glywed gan Estyn nad yw rhai athrawon yn ymwybodol o'u dyletswydd i adrodd am anffurfio organau cenhedlu benywod. Mae angen i Lywodraeth Cymru fynd i'r afael â hyn ar fyrder.

**Argymhelliad 6.** Rhaid i Lywodraeth Cymru gymryd camau ar unwaith i sicrhau bod athrawon yn cael eu hatgoffa o'r ddyletswydd orfodol sydd arnynt i adrodd ar achosion o anffurfio organau cenhedlu benywod. Yn y tymor hwy, dylai Llywodraeth Cymru weithio gydag Estyn i sefydlu trefniadau monitro a mesurau diogelu i roi sicrwydd bod athrawon yn ymwybodol o'u dyletswyddau cyfreithiol o ran atal trais ar sail rhywedd. Dylai'r gwaith i sefydlu'r mesurau monitro hyn gael ei gwblhau erbyn mis Medi 2024.

## Addysg uwch

**86.** Cyhoeddodd Tasglu Universities UK ei adroddiad ar ddelio â thrais yn erbyn menywod, troseddau casineb ac aflonyddu ym mhrifysgolion y DU yn 2016.[89]

**87.** Er bod Llywodraeth y DU wedi ysgrifennu at bob is-ganghellor yn gofyn iddo ddilyn y rhaglen atal, dywedodd Dr Rachael Fenton mai niferoedd bach iawn sydd wedi mynd i'r afael â'r agenda mewn gwirionedd. Soniodd Dr Fenton sylw am ddiffyg cefnogaeth a buddsoddiad gan uwch-reolwyr a dywedodd fod rhai prifysgolion heb wneud dim byd o gwbl i'r perwyl hwn.[90] Cymharodd Dr Fenton y sefyllfa gyda'r Unol Daleithiau, gan ddweud:

> *"… there is primary legislation that requires federally funded universities to have in place bystander programmes and a whole other set of things like data collection, so we know what's actually going on."*[91]

**88.** Tynnodd Cyngor Cyllido Addysg Uwch Cymru (CCAUC) sylw at ganllawiau a gyhoeddwyd i brifysgolion Cymru sy'n annog prifysgolion i gryfhau dulliau ataliol o fynd i'r afael â thrais ar sail rhywedd.[92]

## Ein barn ni

Yng ngoleuni'r dystiolaeth bryderus am y diffyg cynnydd sydd wedi ei wneud yn y sector addysg uwch yn dilyn canfyddiadau llwm adroddiad Universities UK yn 2016, dylai'r Gweinidog Addysg ofyn am ddiweddariad gan sefydliadau addysg uwch yng Nghymru ynghylch y cynnydd sydd wedi ei wneud ers cyhoeddi

[89] 'Changing the culture: Report of the Universities UK Taskforce examining violence against women, harassment and hate crime affecting university students', Hydref 2016
[90] Y Pwyllgor Cydraddoldeb a Chyfiawnder Cymdeithasol, 12 Mehefin 2023, Cofnod y Trafodion, paragraff 233
[91] Y Pwyllgor Cydraddoldeb a Chyfiawnder Cymdeithasol, 12 Mehefin 2023, Cofnod y Trafodion, paragraff 234
[92] Llythyr gan Gyngor Cyllido Addysg Uwch Cymru, 20 Gorffennaf 2023

adroddiad 2016, a dylai eu hatgoffa o ddisgwyliadau Llywodraeth Cymru. Yn ogystal â hynny, dylai'r Gweinidog Addysg gyfarwyddo'r Comisiwn Addysg Drydyddol ac Ymchwil i gydweithio â'r sector i gytuno ar gamau gweithredu sy'n cryfhau dulliau ataliol o fynd i'r afael â thrais ar sail rhywedd ym mhob rhan o addysg uwch.

Cam Gweithredu 5. Dylai'r Gweinidog Addysg ysgrifennu at sefydliadau addysg uwch yng Nghymru i'w hatgoffa o ddisgwyliadau Llywodraeth Cymru a chyfarwyddo'r Comisiwn Addysg Drydyddol ac Ymchwil i gydweithio â'r sector i gytuno ar gamau gweithredu sy'n cryfhau dulliau ataliol ar draws y sector.

## Ymyriadau gan y rhai sy'n dyst i drais ar sail rhywedd

**89.** Cynsail ganolog ymyriadau gan y rhai sy'n dyst i drais ar sail rhywedd yw y gall pawb chwarae ei ran mewn atal trais o'r fath. Mae ymyriadau fel hyn yn ymwneud â darparu'r offer a'r adnoddau i annog pobl i fod â'r hyder i herio neu amlygu ymddygiad ac agweddau niweidiol.

**90.** Esboniodd Dr Eisenstadt fod y rhai sy'n dyst i drais ar sail rhywedd yn cael eu hystyried yn bobl sy'n derbyn gwybodaeth neu'n gweld sefyllfa nad yw'n ymwneud yn uniongyrchol â hi fel y drwgweithredwr neu'r dioddefwr. Mae hyfforddiant i'r perwyl hwn yn ymwneud â hyfforddi pobl i fod â'r sgiliau i ymyrryd mewn rhyw ffordd, naill ai i atal niwed pellach neu i ymateb i niwed sydd wedi digwydd. Ychwanegodd mai un o brif rolau'r rhai sy'n gweld trais o'r fath yw herio'r camganfyddiadau o normau cymdeithasol sy'n ein hatal rhag ymyrryd, sy'n annog drwgweithredwyr i barhau i wneud yr hyn y maent yn ei wneud.[93]

### Ymyriadau rhagweithiol gan y rhai sy'n dyst i drais ar sail rhywedd: mesurau atal ar waith

> *Fel enghraifft, cyfeiriodd Dr Eisenstadt at rywun yn dweud jôc rywiaethol. Meddai: "When that happens and nobody calls it out, we look around the room and we misperceive the social norm. So, we look around the room and no-one is saying anything, and we think, 'Uh-oh, everyone else agrees.' In actual fact, most people in that room are probably thinking, 'I'm not okay with this, but I don't want to say anything, because I don't want to be the pariah. I don't want to be the one who's calling it out and I'm worried that no-one's going to back*

[93] Y Pwyllgor Cydraddoldeb a Chyfiawnder Cymdeithasol, 12 Mehefin 2023, Cofnod y Trafodion, paragraff 168

*me up.' The wrongdoer's looking around the room, and they're getting a kind of false consensus, so they're looking around and thinking, 'Oh, everyone agrees with me. I'm going to keep doing this."*

*Mae hyfforddiant i'r sawl a allai fod yn dyst i drais ar sail rhywedd yn golygu bod angen grymuso pobl i ymyrryd yn y sefyllfaoedd hynny. Yng ngeiriau Dr Eisenstadt: "it's a kind of grass-roots approach to culture change".*

**91.** Disgrifiodd Lara Snowdon ymyriadau gan y rhai sy'n dyst i drais ar sail rhywedd fel rhaglen atal allweddol gan ddweud bod tystiolaeth eithaf sylweddol ei fod yn ddull effeithiol.[94]

**92.** Dywedodd y Cynghorwyr Cenedlaethol ar Drais yn Erbyn Menywod, Cam-drin Domestig a Thrais Rhywiol fod y dulliau hyn yn effeithiol gan alw am strategaethau i gynyddu ymyriadau o'r fath.[95]

**93.** Dywedodd CCAUC fod chwech o blith yr wyth prifysgol yng Nghymru wedi neilltuo cyllid ar gyfer ymyriadau penodol gan y rhai sy'n dyst i drais o'r fath.[96] Dywedodd y Gweinidog Addysg fod dwy brifysgol wedi penderfynu ar ffordd wahanol o gyflawni hyn, ac aseswyd bod eu cynlluniau yn 'ddigonol' gan CCAUC. Nododd Dr Fenton a Dr Eisenstadt fod rheoli ansawdd darpariaeth a glynu at y model ymyrryd hwn yn hollbwysig os yw'r rhaglen am fod yn effeithiol.[97]

**94.** Rhybuddiodd y Prif Gwnstabl Amanda Blakeman fod camau gan y rhai sy'n dyst i drais ar sail rhywedd yn beth hawdd i'w ddweud ac yn beth cymhleth iawn i'w wneud o ran y gymuned ac o ran gwasanaethau hefyd. Dywedodd fod yn rhaid creu'r amgylchedd iawn i bobl deimlo eu bod yn cael eu cefnogi i allu gwneud hynny.[98]

---

[94] Y Pwyllgor Cydraddoldeb a Chyfiawnder Cymdeithasol, 22 Mai 2023, Cofnod y Trafodion, paragraff 39
[95] Cynghorwyr Cenedlaethol ar gyfer Trais yn erbyn Menywod, Cam-drin Domestig a Thrais Rhywiol, tystiolaeth ysgrifenedig
[96] Llythyr gan Gyngor Cyllido Addysg Uwch Cymru, 20 Gorffennaf 2023
[97] Dr Rachel Fenton, a Dr Nathan Eisenstadt, tystiolaeth ysgrifenedig
[98] Y Pwyllgor Cydraddoldeb a Chyfiawnder Cymdeithasol, 10 Gorffennaf 2023, Cofnod y Trafodion, paragraff 124

**95.** Cwblhaodd Cymorth i Ferched Cymru gynllun peilot The Bystander Initiative yn 2018, a dywedodd fod yr ymateb yn hynod gadarnhaol. Mae'n parhau i ddarparu ymyrraeth o'r fath i fyfyrwyr coleg a phrifysgol.[99]

**96.** Cadarnhaodd y Gweinidog gynlluniau i gyflwyno rhaglen genedlaethol ledled Cymru ar gyfer ymyrraeth gan y rhai sy'n dyst i drais ar sail rhywedd, gan wneud hynny yn gynnar yn 2024. Nod cyllid o £230,000 dros dair blynedd ar gyfer y rhaglen beilot fyddai creu newidiadau gwirioneddol a pharhaol mewn agweddau cymdeithasol at drais yn erbyn menywod, cam-drin domestig a thrais rhywiol.[100] Cawsom sicrwydd gan y Gweinidog y bydd gwerthusiad llawn yn cael ei gynnal a fydd yn darparu argymhellion ar ôl ei gwblhau.[101]

**97.** Pwysleisiodd Lara Snowdon o ICC bwysigrwydd gwerthuso, ac roedd yn gobeithio y gallai Cymru fod ar flaen y gad o ran datblygu'r rhaglenni atal gan y rhai sy'n dyst i drais ar sail rhywedd, a hynny'n seiliedig ar dystiolaeth.[102]

### Ein barn ni

Mae'r dystiolaeth yn awgrymu y gall ymyriadau gan y rhai sy'n dyst i drais ar sail rhywedd gael effaith glir a buddiol wrth atal trais o'r fath. Fodd bynnag, er mwyn bod yn effeithiol, mae angen i hyfforddiant ar ymyriadau o'r fath gael ei gyflwyno gan weithwyr proffesiynol sydd â dealltwriaeth drylwyr o'r maes hwn.

Rydym yn falch bod Llywodraeth Cymru yn cymryd camau i gyflwyno ei rhaglen ymyrraeth 'Paid Cadw'n Dawel'. Bydd prosesau monitro a gwerthuso cadarn yn allweddol i'w llwyddiant.

Cam Gweithredu 6. Dylai Llywodraeth Cymru gyhoeddi canlyniadau ei rhaglen ymyrraeth 'Paid Cadw'n Dawel' cyn gynted â phosibl ar ôl ei chwblhau.

## Y cyfryngau cymdeithasol a chynnwys niweidiol ar-lein

**98.** Roedd ein tystion yn trafod diogelwch ar-lein ac ar y cyfryngau cymdeithasol, gan gynnwys pryderon am gasineb eithafol at fenywod a ledaenir yn aml ar y cyfryngau cymdeithasol ac a all ddylanwadu ar agweddau ac ymddygiad pobl

[99] Cymorth i Ferched Cymru, tystiolaeth ysgrifenedig
[100] Llythyr gan y Gweinidog Cyfiawnder Cymdeithasol a'r Prif Chwip, 20 Hydref 2023
[101] Llythyr gan y Gweinidog Cyfiawnder Cymdeithasol a'r Prif Chwip, 20 Hydref 2023
[102] Y Pwyllgor Cydraddoldeb a Chyfiawnder Cymdeithasol, 22 Mai 2023, Cofnod y Trafodion, paragraff 39

ifanc.[103] Disgrifiodd ein Grŵp Cynghori y cyfryngau cymdeithasol fel 'bwystfil gwyllt', gydag aelodau'r Grŵp yn esbonio bod angen i blant a phobl ifanc gael eu haddysgu ynglŷn â beth yw cam-drin, a hynny fel bod pobl, pan fyddant yn wynebu camdriniaeth o'r fath, yn dewis peidio â chael eu dylanwadu. Cododd y Grŵp bryderon hefyd am natur cynnwys pornograffig ar-lein a pha mor hawdd yw gweld cynnwys pornograffig o'r fath, a all ystumio'r hyn y mae person ifanc yn ei ystyried yn berthynas iach a chariadus.

**99.** Dywedodd Alexa Gainsbury o ICC y dylai'r codau Addysg Cydberthynas a Rhywioldeb a Llythrennedd Digidol ganolbwyntio ar roi'r sgiliau a'r strategaethau i bobl ifanc herio ymddygiad gwahaniaethol ar-lein. Soniodd ICC fod y Fframwaith Cymhwysedd Digidol yn cynnwys y cysyniad o ddinasyddiaeth ddigidol gydwybodol ochr yn ochr â gwerthusiad beirniadol o'r byd digidol ynghyd â lle unigolion o fewn y byd hwnnw. Soniodd hefyd am elfen benodol sydd wedi'i chynllunio i atal bwlio ar-lein.

**100.** Cyfeiriodd Anne-Marie Lawrence at rôl dylanwadwyr ar-lein, a phwysleisiodd yr angen am sensitifrwydd:

> *"There needs to be an understanding of what's driving men and boys who are aligning with harmful attitudes and beliefs, and we need to listen to how they feel and what it is that's influencing them, or what's attracting them to, maybe, some of these more harmful influences."*[104]

**101.** Dywedodd y Gweinidog Addysg fod diogelwch ar-lein yn rhan hollbwysig o'r cod Addysg Cydberthynas a Rhywioldeb, ond ei bod yn heriol dod o hyd i ffyrdd o atgyfnerthu'r neges gyda lleisiau y gellir ymddiried ynddynt ac y gall pobl ifanc uniaethu â nhw.[105] Cadarnhaodd Llywodraeth Cymru ei bod yn sefydlu Panel Cynghori ar Gadernid Digidol i blant a phobl ifanc.[106]

### Ein barn ni

Mae cryn dystiolaeth bod agweddau rhywiaethol ac iaith sy'n cyfleu casineb tuag at fenywd yn cael eu harddel a'u normaleiddio ar y cyfryngau cymdeithasol. Mae

[103] Cymdeithas Seicolegol Prydain, tystiolaeth ysgrifenedig
[104] Y Pwyllgor Cydraddoldeb a Chyfiawnder Cymdeithasol, 12 Mehefin 2023, Cofnod y Trafodion, paragraff 46
[105] Y Pwyllgor Cydraddoldeb a Chyfiawnder Cymdeithasol, 11 Medi 2023, Cofnod y Trafodion, paragraff 46
[106] Llywodraeth Cymru, papur tystiolaeth

achosion proffil uchel diweddar yn ymwneud â dylanwadwyr ar y cyfryngau cymdeithasol wedi cynyddu pryder y cyhoedd am effeithiau niweidiol trais ar sail rhywedd ar-lein.

Er mwyn mynd i'r afael â'r niwed posibl a gaiff ei achosi gan "fwystfil gwyllt" y cyfryngau cymdeithasol, bydd angen dull gweithredu amlhaenog sy'n cynnwys unigolion, cwmnïau technoleg, y Llywodraeth a chymdeithas sifil. Mewn ysgolion, mae Llywodraeth Cymru yn gywir i bwysleisio diogelwch ar-lein a llythrennedd ddigidol. Rydym yn cytuno bod addysgu unigolion am ddiogelwch ar-lein, meddwl yn feirniadol a sgiliau llythrennedd ar y cyfryngau yn hollbwysig.

Dylai Llywodraeth Cymru ei gwneud yn ofynnol i'w phanel cynghori newydd ar gyfer cadernid digidol gytuno ar ei flaenoriaethau a'i flaenraglen waith yn gyflym a darparu amserlenni dangosol ar gyfer trefn ei waith. Wrth nodi ei flaenoriaethau, dylai'r Panel Cynghori gynnwys manylion ynghylch sut y mae'n bwriadu ystyried meysydd sylweddol o bolisi a deddfwriaeth nad ydynt wedi'u datganoli mewn perthynas â rheoleiddio digidol a rheoleiddio ar-lein. Dylai unrhyw newidiadau dilynol i bolisi a/neu ganllawiau gael eu hadrodd i'r Senedd fel y gellir craffu arnynt.

**Argymhelliad 7.** Dylai Llywodraeth Cymru ei gwneud yn ofynnol i'w Phanel Cynghori ar Gadernid Digidol sydd newydd ei sefydlu gytuno ar ei flaenoriaethau a'i flaenraglen waith yn gyflym a chyhoeddi'r rhain erbyn diwedd mis Ebrill 2024. Dylai'r Panel egluro pa feysydd y bydd yn eu blaenoriaethu, amserlenni a ragwelir ar gyfer trefn ei flaenraglen waith a sut y bydd yn ystyried meysydd sylweddol o bolisi a deddfwriaeth nad ydynt wedi'u datganoli sy'n ymwneud â rheoleiddio digidol a rheoleiddio ar-lein.

## Lleoliadau gofal iechyd

**102.** Mae gweithwyr gofal iechyd proffesiynol yn aml ymhlith y pwyntiau cyswllt cyntaf – ac weithiau'r unig bwyntiau cyswllt – ar gyfer y sawl sydd wedi dioddef trais ar sail rhywedd. Maent yn aml yn cysylltu'r sawl sydd wedi dioddef trais o'r fath â gwasanaethau eraill gan gynnwys cymorth iechyd meddwl, gwasanaethau cymdeithasol, cymorth cyfreithiol, a gwasanaethau tai. Mae nifer o ffyrdd y gall gweithwyr gofal iechyd proffesiynol chwarae rôl ataliol mewn perthynas â thrais ar sail rhywedd, gan gynnwys gofyn i gleifion am ddiogelwch eu perthnasoedd agos a'u perthnasoedd teuluol.

**103.** Nododd Coleg Brenhinol yr Ymarferwyr Cyffredinol y rôl y gall meddygon teulu ei chwarae, sy'n aml yn golygu bod yn bobl y gall cleifion ymddiried ynddynt.[107]

### Rhaglenni Ymyrraeth Trais yn Ysbytai De Cymru: mesurau atal ar waith

> *Caiff y rhaglenni hyn eu cynnal gan Uned Atal Trais ICC, sydd wedi'i lleoli yn adrannau damweiniau ac achosion brys Ysbyty Treforys ac Ysbyty Athrofaol Cymru. Mae Timau Atal Trais, sy'n cael eu harwain gan staff nyrsio, yn cefnogi cleifion sy'n mynd i adrannau damweiniau ac achosion brys am resymau'n ymwneud â thrais, ac yna'n eu cyfeirio at wasanaethau'r GIG neu wasanaethau cymunedol lleol a all ddarparu cyngor, gofal neu gymorth pellach. Mae'r dull ymyrryd yn cael ei werthuso ar hyn o bryd gan Brifysgol Caerdydd.*

**104.** Galwodd Cymdeithas Seicolegol Prydain am ddatblygu capasiti gwasanaethau iechyd i atal trais ar sail rhywedd, yn enwedig mewn perthynas â thrais gan bartner agos. Dywedodd y Gymdeithas y dylai cyllidebau iechyd ddyrannu adnoddau'n benodol i atal trais ar sail rhywedd. Mae'r Gymdeithas hefyd am weld dulliau sy'n ystyriol o drawma yn cael eu hymgorffori mewn hyfforddiant gan ysgolion meddygol a seiciatreg.[108]

**105.** Os am gryfhau ymateb y gwasanaethau iechyd i drais ar sail rhywedd, clywsom fod angen:

- deall effaith trais ar sail rhywedd ar iechyd a llesiant menywod a'u plant;
- cefnogi ymdrechion hirdymor i hyfforddi a chefnogi gweithwyr gofal iechyd proffesiynol ar bob lefel i ddarparu ymateb diogel ac effeithiol i'r sawl sydd wedi dioddef trais ar sail rhywedd;
- integreiddio gofal ar gyfer y sawl sydd wedi dioddef trais ar sail rhywedd o fewn gwasanaethau iechyd yn hytrach na sefydlu gwasanaethau cyfochrog;
- sicrhau bod seilwaith ar gyfer preifatrwydd a chyfrinachedd a rhwydwaith atgyfeirio yn ei le;

[107] Coleg Brenhinol yr Ymarferwyr Cyffredinol, tystiolaeth ysgrifenedig
[108] Cymdeithas Seicolegol Prydain, tystiolaeth ysgrifenedig

- darparu gofal diogel a thosturiol i'r sawl sydd wedi dioddef trais ar sail rhywedd.

## Gofyn a Gweithredu

**106.** O dan y Ddeddf Trais yn Erbyn Menywod, Cam-drin Domestig a Thrais Rhywiol, mae'r ddyletswydd 'Gofyn a Gweithredu' yn ei gwneud yn ofynnol i awdurdodau perthnasol (megis awdurdodau lleol neu'r GIG) ddilyn proses ymholi wedi'i thargedu wrth geisio canfod achosion o drais yn erbyn menywod, cam-drin domestig a thrais rhywiol. Darperir hyfforddiant i staff ar y ddyletswydd drwy'r Fframwaith Hyfforddi Cenedlaethol ar Drais yn Erbyn Menywod, Cam-drin Domestig a Thrais Rhywiol, a dywedodd y Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol wrthym fod 27,000 o weithwyr proffesiynol wedi'u hyfforddi hyd yn hyn.[109]

**107.** Dywedodd y Cynghorwyr Cenedlaethol ei bod yn bosibl bod diffyg hyder gan weithwyr proffesiynol yn y llwybrau Atgyfeirio, a bod hyn yn her i weithredu'r ddyletswydd 'Gofyn a Gweithredu'. Roeddent hefyd yn pwysleisio'r angen am ymateb prydlon ar ôl i drais o'r fath gael ei ddatgelu, gan ddweud y gall fod yn niweidiol iawn i ddioddefwr os oes rhaid iddynt aros am wasanaethau ar ôl cael eu hannog i ddatgelu eu sefyllfa.[110]

**108.** Roedd hefyd yn aneglur faint o weithwyr gofal iechyd proffesiynol sydd wedi'u hyfforddi i ddelio â'r materion anodd hyn gyda'u cleientiaid, ac yn ôl Coleg Brenhinol yr Ymarferwyr Cyffredinol:

> *"While members who have received Ask and Act training find it useful, many members were not aware what it was or where they could access it. RCGP was not able to find clear guidance on how GPs should avail themselves of this training and would welcome further information to circulate to members."*[111]

**109.** Mae Cymorth i Ferched Cymru wedi bod yn gyfrifol am ddarparu hyfforddiant Gofyn a Gweithredu ers iddo gael ei ddatblygu yn 2016. Dywedodd y sefydliad wrthym fod y posibilrwydd o ehangu'r hyfforddiant y tu hwnt i'r sector

[109] Y Pwyllgor Cydraddoldeb a Chyfiawnder Cymdeithasol, 11 Medi 2023, Cofnod y Trafodion, paragraff 21
[110] Cynghorwyr Cenedlaethol ar gyfer Trais yn erbyn Menywod, tystiolaeth ysgrifenedig
[111] Tystiolaeth ychwanegol gan Goleg Brenhinol yr Ymarferwyr Cyffredinol, Awst 2023

cyhoeddus datganoledig i wasanaethau eraill megis yr heddlu, gwasanaethau tai a digartrefedd a'r sector preifat yn cael ei ystyried ar hyn o bryd.[112]

**110.** Nododd Dr Edith England o Brifysgol Metropolitan Caerdydd a Dr Josie Henley o Brifysgol Caerdydd fod gwasanaethau digartrefedd mewn sefyllfa gref i ymyrryd, gan mai trais ar sail rhywedd yw un o'r prif resymau pam mae menywod a'r rhai sydd â rhywedd leiafrifol yn cysylltu â gwasanaethau digartrefedd. Fodd bynnag, canfu eu hymchwil ar weithrediad Deddf Tai (Cymru) 2014 nad oedd gweithwyr yn aml yn sylweddoli pan oedd ymgeiswyr yn profi trais ar sail rhywedd. Dywedodd:

> *"A strict focus upon whether an individual met the criteria for homelessness meant that opportunities to identify and intervene in situations where domestic abuse was occurring were often missed. We believe that this arose from a combination of a severe lack of time among frontline workers to speak with clients (meaning that they often did not move beyond the 'presenting problem' of homelessness) and a broader lack of awareness of 'red flags' for domestic abuse in a homelessness context."*[113]

**111.** Tynnodd y Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol sylw at werthusiad annibynnol o'r ddyletswydd Gofyn a Gweithredu, a ganfu fod y ddyletswydd yn effeithiol o ran gosod trais yn erbyn menywod, cam-drin domestig a thrais rhywiol ar yr agenda o fewn sefydliadau, a dywedodd y teimlir bod y cysondeb a ddaw yn sgil y dull hwn yn werthfawr.[114]

**112.** Nododd y Gweinidog Cyfiawnder Cymdeithasol pa mor bwysig yw'r rhaglen o ran newid ymddygiad ac nid dim ond fel blwch i'w dicio ar gyfer gweithwyr proffesiynol ar y rheng flaen. Cytunodd hefyd fod angen ehangu'r ddyletswydd 'Gofyn a Gweithredu' i'r sector cyhoeddus yn ehangach.[115]

---

[112] Llythyr gan Cymorth i Ferched Cymru, 9 Hydref 2023
[113] Dr Edith England o Brifysgol Metropolitan Caerdydd a Dr Josie Henley o Brifysgol Caerdydd, tystiolaeth ysgrifenedig
[114] Llythyr gan y Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol, 9 Hydref 2023
[115] Y Pwyllgor Cydraddoldeb a Chyfiawnder Cymdeithasol, 18 Medi 2023, Cofnod y Trafodion, paragraff 52

## Ein barn ni

Mae gweithwyr iechyd a gofal cymdeithasol yn chwarae rhan hollbwysig mewn ymdrechion i ymyrryd yn gynnar a chymryd mesurau atal. Rhaid eu cefnogi i adnabod arwyddion posibl o drais ar sail rhywedd os yw rhaglenni ymyrraeth gynnar am lwyddo, ac os ydym am sicrhau y gellir darparu gofal priodol.

Dylai Llywodraeth Cymru gryfhau ei chamau gweithredu i sicrhau bod gan GIG Cymru yr offer, yr hyfforddiant a'r adnoddau sydd eu hangen i sicrhau bod gweithwyr gofal iechyd proffesiynol yn teimlo'n hyderus i helpu dioddefwyr trais ar sail rhywedd i gael mynediad i'r gofal a'r cymorth sydd eu hangen arnynt. Yn ogystal â hynny, dylai Llywodraeth Cymru nodi'n glir sut y mae'n bwriadu hybu ymwybyddiaeth y cyhoedd bod cyfleusterau gofal iechyd yn fannau diogel i ddatgelu eich sefyllfa i weithwyr gofal iechyd proffesiynol. Dylai fod mannau diogel hefyd o fewn cyfleusterau gofal iechyd lle y gall staff deimlo'n gyfforddus ac yn hyderus yn datgelu eu profiadau eu hunain o drais ar sail rhywedd – boed hynny gartref neu yn y gweithle.

Er gwaetha'r ffaith y cyflwynwyd hyfforddiant 'Gofyn a Gweithredu' mewn lleoliadau iechyd a gofal, ni chawsom ein hargyhoeddi gan y dystiolaeth a glywsom gan y Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol a'r Dirprwy Weinidog Gwasanaethau Cymdeithasol fod y ddyletswydd yn cael ei gweithredu mor effeithiol ag y gallai. Testun pryder arbennig oedd y diffyg ymwybyddiaeth ymhlith meddygon teulu o'r hyfforddiant Gofyn a Gweithredu, ond nid yw'n syndod o ystyried y diffyg canllawiau sydd ar gael yn rhwydd ar sut i fanteisio ar yr hyfforddiant hwn. Dylid ymestyn y ddyletswydd 'Gofyn a Gweithredu' i ystod ehangach o weithwyr proffesiynol, gan ddechrau gyda meddygon teulu a gwasanaethau digartrefedd.

**Argymhelliad 8.** Dylai Llywodraeth Cymru weithio gyda chyrff iechyd i wella gallu gweithwyr gofal iechyd proffesiynol i adnabod arwyddion trais ar sail rhywedd, ac i ymateb i'r arwyddion hynny. Er mwyn gweithredu'r argymhelliad hwn, dylai Llywodraeth Cymru:

- ymestyn y ddyletswydd Gofyn a Gweithredu i weithwyr iechyd a gofal cymdeithasol proffesiynol eraill, a chyhoeddi canllawiau diwygiedig i feddygon teulu fel man cychwyn;
- olrhain ac adrodd yn gyhoeddus ar ystadegau ynglŷn â chyfranogiad staff mewn rhaglenni hyfforddiant;

- coladu a chyhoeddi ystadegau ynglŷn â phrydlondeb amseroedd ymateb (rhwng datgelu’r sefyllfa a chael eu gweld gan arbenigwr) o fewn llwybrau atgyfeirio Gofyn a Gweithredu; ac
- amlinellu'n glir y fethodoleg ar gyfer mesur effaith rhaglenni hyfforddiant.

Dylid cwblhau’r gwaith hwn erbyn mis Mawrth 2025.

# 4. Gwneud mesurau atal yn gyfrifoldeb inni i gyd

**113.** Amlygodd sawl tyst, gan gynnwys y Cynghorwyr Cenedlaethol a Plan International UK, yr angen i siapio agweddau a normau cymdeithasol mewn amrywiaeth o leoliadau megis gweithleoedd, y cyfryngau, chwaraeon a gweithgareddau hamdden, y celfyddydau ac ati.[116] Fodd bynnag, ychydig iawn o dystiolaeth a gawsom am 'beth sy'n gweithio' o ran atal trais ar sail rhywedd yn y lleoliadau hyn. Mae'n ymddangos bod hyn yn cefnogi honiad Cymorth i Ferched Cymru nad yw'r sefydliadau hyn yn credu eu bod yn cyfrannu at ddull iechyd y cyhoedd wrth ddelio â thrais ar sail rhywedd.[117]

**114.** Disgrifiodd Lara Snowdon y methiant i ymgysylltu â busnesau a gweithleoedd, lle mae mwyafrif y boblogaeth yn treulio cyfran fawr o'u hamser, fel 'cyfle a gollwyd'.[118]

## Gweithleoedd

**115.** Awgrymodd ein Grŵp Cynghori fod angen ymyriadau yn y gweithle i gefnogi dioddefwyr ac i atal aflonyddu rhywiol

**116.** Awgrymodd Cymorth i Ferched Cymru y dylai fod gan bob cyflogwr y sgiliau i allu darparu ymatebion sy'n ystyriol o drawma ac sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn, yn ogystal â sicrhau bod polisïau a mecanweithiau atebolrwydd ar waith ar gyfer y rhai sy'n aflonyddu'n rhywiol ar eraill.[119]

**117.** Esboniodd Lara Snowdon fod tystiolaeth ynghylch yr hyn sy'n gweithio i atal trais ar sail rhywedd mewn gweithleoedd yn gyfyngedig, gan ychwanegu y byddai'n ddiddorol ystyried ymyriadau rhagweithiol yn y gweithle gan y rhai sy'n dyst i drais o'r fath.[120]

**118.** Cytunodd Dr Burrell, a nododd fod busnesau a gweithleoedd yn lleoliadau hollbwysig:

[116] Plan International UK, tystiolaeth ysgrifenedig
[117] Cymorth i Ferched Cymru, tystiolaeth ysgrifenedig
[118] Y Pwyllgor Cydraddoldeb a Chyfiawnder Cymdeithasol, 22 Mai 2023, Cofnod y Trafodion, paragraff 58
[119] Cymorth i Ferched Cymru, tystiolaeth ysgrifenedig
[120] Y Pwyllgor Cydraddoldeb a Chyfiawnder Cymdeithasol, 22 Mai 2023, Cofnod y Trafodion, paragraff 59

> *"Businesses can do things in the wider community in terms of raising awareness of these issues, speaking out about them, challenging some of these gender norms. So, if you think about the Gillette campaign—I don't know if anybody remembers that from a few years ago—called 'The Best Men Can Be', after the #MeToo movement, they put some adverts questioning some ideas about masculinity that exist in wider society, and asking questions about how men and boys can play a positive role."*[121]

**119.** Pwysleisiodd Dr Eisenstadt rôl cyfrifoldeb cymdeithasol corfforaethol, a chyfeiriodd at yr effaith a gafodd hyfforddiant ar gyfer y rhai sy'n dyst i drais ar sail rhywedd ar weithlu ffatri cwmni gweithgynhyrchu mawr, a oedd yn ddynion i gyd fwy neu lai; dywedodd un dyn fod ganddo fab a merch ifanc, a'i fod yn mynd i roi'r gorau i ddweud wrth ei fab i "fod yn ddyn". Dywedodd y gweithiwr fod yr hyfforddiant wir wedi gwneud iddo feddwl.[122]

## Ein barn ni

Rydym yn cydnabod yr effaith sylweddol y gall busnesau a gweithleoedd ei chael o ran atal trais ar sail rhywedd a hyrwyddo cydraddoldeb rhwng y rhywiau. Dylai Llywodraeth Cymru sefydlu seithfed ffrwd waith o fewn y Glasbrint Trais yn Erbyn Menywod, Cam-drin Domestig a Thrais Rhywiol, a dylai'r seithfed ffrwd honno wneud argymhellion uchelgeisiol ar sut y gall busnesau a sefydliadau roi polisïau ar waith sy'n cefnogi amgylchedd gwaith diogel a chyfartal, gan gynnwys hyfforddiant ar atal aflonyddu a thrais. Dylai'r grŵp weithredu mewn ysbryd o bartneriaeth gymdeithasol gyda chynrychiolaeth o blith cyflogwyr ac undebau llafur.

**Argymhelliad 9.** Dylai Llywodraeth Cymru sefydlu seithfed ffrwd waith o fewn y Glasbrint Trais yn Erbyn Menywod, Cam-drin Domestig a Thrais Rhywiol, a dylai'r seithfed ffrwd honno wneud argymhellion uchelgeisiol ar sut y gall busnesau a sefydliadau greu gweithleoedd sy'n fwy diogel a chyfartal. Dylai'r ffrwd waith gynnwys gwybodaeth ymarferol am y polisïau, y gweithdrefnau a'r hyfforddiant sydd eu hangen i gefnogi'r nod hwn. Dylai'r grŵp weithredu mewn ysbryd o

[121] Y Pwyllgor Cydraddoldeb a Chyfiawnder Cymdeithasol, 12 Mehefin 2023, Cofnod y Trafodion, paragraff 52
[122] Y Pwyllgor Cydraddoldeb a Chyfiawnder Cymdeithasol, 12 Mehefin 2023, Cofnod y Trafodion, paragraff 244

bartneriaeth gymdeithasol gyda chynrychiolaeth o blith cyflogwyr ac undebau llafur.

## Economi'r nos

**120.** Maes ffocws arall o fewn y sector busnes oedd economi'r nos. Roedd academydd blaenllaw ar y mater hwn, yr Athro Zara Quigg, yn dadlau bod angen cyfres eang o raglenni i atal trais rhywiol yn amgylchedd y nos.

**121.** Ychydig o dystiolaeth a gawsom ar yr hyn sy'n ymyriadau effeithiol yng nghyd-destun bywyd nos. Ond clywsom fod mesurau atal yn tueddu i ganolbwyntio ar ymyriadau gan y rhai sy'n dyst i drais, codi ymwybyddiaeth ac ymgyrchoedd yn y cyfryngau, ynghyd â rôl polisi alcohol.

**122.** Dywedodd Cymorth i Ferched Cymru y dylai fod cyfrifoldeb ar ddiwydiannau economi'r nos i ddelio â thrais ar sail rhywedd ac i wneud atgyfeiriadau yn ôl yr angen. Dywedodd Cymorth i Ferched Cymru:

> *"This can be by ensuring that all staff have bystander training or relevant VAWDASV training to increase their confidence to be able to navigate a situation where an individual is in distress or discloses."*[123]

### Ymgyrch 'Good Night Out': mesurau atal ar waith

> *Fe wnaeth yr Athro Zara Quigg a Charlotte Bigland gynnal gwerthusiad o ymgyrch 'Good Night Out' yn 2020, sef ymgyrch farchnata gymdeithasol, a gefnogir gan hyfforddiant ar gyfer staff economi'r nos - bownseriaid, staff drws, gweithwyr bar, yn ogystal â phobl fel gweithwyr Street Pastors, a allai fod allan yn yr economi gyda'r nos, a gweithwyr sy'n gofalu am safleoedd tacsis-i allu ymateb yn effeithiol os ydynt yn gweld trais ar sail rhywedd yn digwydd.*
>
> *Roedd y gwerthusiad yn nodi gwelliannau mewn gwybodaeth ac agweddau tuag at drais rhywiol, a mwy o barodrwydd a hyder ymhlith gweithwyr bywyd nos i ymyrryd pe baent yn gweld trais rhywiol. Darparodd yr ymgyrch ganllawiau ar gyfer safleoedd trwyddedig yn Llundain.*

[123] Cymorth i Ferched Cymru, tystiolaeth ysgrifenedig

**123.** Cadarnhaodd Cadeirydd Plismona yng Nghymru, Dafydd Llywelyn fod cyllid rhaglen 'Safer Streets' y Swyddfa Gartref wedi'i ddefnyddio gan Heddluoedd Cymru i wella'r amgylchedd gyda'r nos gyda gwell seilwaith teledu cylch cyfyng a mesurau eraill i helpu menywod i deimlo'n ddiogel mewn mannau cyhoeddus. Ychwanegodd y Prif Gwnstabl Amanda Blakeman:

> *"To give a really good sense of what's happening on the streets, we have officers deployed both overtly and covertly to try and identify predatory behaviour, and to support individuals who may be vulnerable. We've engaged extensively with businesses, training staff to be able to spot that themselves and be upstanders in relation to it, so that they're able to flag that and identify it to us."*[124]

**124.** Soniodd y Prif Gwnstabl Blakeman hefyd am y ffordd y mae heddluoedd Cymru yn gweithio'n agos iawn gyda Heddlu Trafnidiaeth Prydain a chwmnïau trafnidiaeth i hyrwyddo trafnidiaeth gyhoeddus fwy diogel.[125]

**125.** Mae'r defnydd o alcohol yn cael ei gydnabod yn eang fel ffactor sy'n cynyddu'r risg o drais ar sail rhywedd. Dylai dull iechyd y cyhoedd ystyried rôl ymyriadau'n ymwneud ag alcohol wrth atal trais sy'n gysylltiedig ag alcohol tuag at bartner agos. Clywsom fod prosiect TASC Caerdydd ('*Tackling Alcohol-related Street Crime*') wedi bod yn effeithiol wrth ddelio â thrais sy'n gysylltiedig ag alcohol. Cafodd TASC ei ddatblygu gyntaf ar ddiwedd y 1990au a dechrau'r 2000au, ac esboniodd y Dirprwy Gomisiynydd Heddlu a Throseddu Emma Wools fod TASC yn ddull amlasiantaethol sydd wedi ei arwain gan yr heddlu i atal troseddau ac anhrefn sy'n gysylltiedig ag alcohol yng Nghaerdydd, Dywedodd ei fod yn cynnwys amrywiaeth o ymyriadau gan gynnwys deialog rhwng yr heddlu a'r fasnach drwyddedu, mesurau sydd wedi'u hanelu at wella ansawdd ac ymddygiad staff drws, gweithrediadau plismona wedi'u targedu a chymorth i ddioddefwyr ymosodiadau sy'n gysylltiedig ag alcohol. Ychwanegodd Dirprwy Gomisiynydd yr Heddlu a Throseddu Emma Wools fod model atal trais Caerdydd, a arloeswyd gan yr Athro John Sheppard o Brifysgol Caerdydd, bellach wedi'i fabwysiadu gan ddinasoedd eraill yn y DU a ledled y byd.[126]

[124] Y Pwyllgor Cydraddoldeb a Chyfiawnder Cymdeithasol, 10 Gorffennaf 2023, Cofnod y Trafodion, paragraff 50
[125] Y Pwyllgor Cydraddoldeb a Chyfiawnder Cymdeithasol, 10 Gorffennaf 2023, Cofnod y Trafodion, paragraff 55
[126] Llythyr gan Emma Wools, Dirprwy Gomisiynydd yr Heddlu a Throseddu De Cymru, 25 Awst 2023

**126.** Dywedodd y Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol wrthym mai ffocws polisi alcohol yw gweithio gyda phartneriaid i leihau'r niwed i unigolion a theuluoedd. Ychwanegodd:

> *"We have not seen any evidence that a specific approach to alcohol abuse is necessary to address the particular problem of VAWDSV, and of course our VAWDASV support is tailored to the needs and circumstances of the individual. However, my officials have not had any specific conversations with Public Health Wales on this topic or any potential changes to our approach to alcohol policy given the data from the British Crime Survey. I have asked that they pick this up and we can consider any adaptations to our approach that are necessary."*[127]

**Rhaglen Strydoedd Diogelach Wrecsam: mesurau atal ar waith**

> *Cafwyd cyllid Strydoedd Diogelach a Diogelwch Menywod gyda'r Nos ychydig o dan £1 miliwn i gefnogi mentrau megis gosod ac uwchraddio teledu cylch cyfyng a goleuadau stryd newydd yng nghanol dinas Wrecsam, gan sicrhau bod y prif lwybrau drwy ganol y ddinas yn cael eu cwmpasu. Rhoddwyd blaenoriaeth i'r llwybrau a ddefnyddir gan gerddwyr i gerdded o ganol y ddinas i leoliadau sydd â golau gwael.*
>
> *Yn ogystal â hyn, rhoddodd y rhaglen bartneriaeth sawl mesur atal arall ar waith i leihau trais ar sail rhywedd. Roedd y mesurau hyn yn cynnwys hyfforddiant drwy'r ymgyrch gyfathrebu 'Good Night Out' i safleoedd trwyddedig i'w dysgu i ddelio â thrais ar sail rhywedd os ydynt yn dyst i drais o'r fath, Canolfan Les Hafan y Dref, a darparu cymorth a chefnogaeth i bobl sydd heb fodd o gyrraedd gartref, sy'n feddw, neu sydd wedi dioddef mân anafiadau.*
>
> *Rhoddodd y rhaglen hefyd gynllun marsialiaid stryd ar waith, a gweithredwyd rhaglen Vista i sicrhau presenoldeb gweladwy gan yr heddlu yn y lleoliadau cywir ar yr amser cywir.*[128]

[127] Llythyr gan y Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol, 9 Hydref 2023
[128] Llythyr gan Emma Wools, Dirprwy Gomisiynydd yr Heddlu a Throseddu De Cymru, 25 Awst 2023

## Ein barn ni

Rydym yn falch bod y Gweinidog Iechyd wedi cytuno i weithio gydag Iechyd Cyhoeddus Cymru i ystyried a oes angen dull penodol o ddelio â chamddefnyddio alcohol, a hoffem gael y wybodaeth ddiweddaraf am y ffrwd waith hon. Dylai Llywodraeth Cymru hefyd nodi a yw'n bwriadu comisiynu ymchwil neu gasglu data i ddeall yn well y berthynas rhwng alcohol a thrais ar sail rhywedd o ystyried y bwlch cydnabyddedig yn y sylfaen dystiolaeth.

Cam Gweithredu 7. Dylai Llywodraeth Cymru adrodd yn ôl ar ei gwaith gydag Iechyd Cyhoeddus Cymru i ystyried a oes angen dull penodol o ddelio â chamddefnyddio alcohol, ac a yw'n bwriadu comisiynu unrhyw waith ymchwil neu gasglu data i ddeall yn well y berthynas rhwng alcohol a thrais ar sail rhywedd o ystyried y bwlch yn y sylfaen dystiolaeth. Dylid darparu diweddariad i'r Senedd yn nhymor yr hydref 2024.

## Chwaraeon

**127.** Er bod gan chwaraeon rôl bwysig yn y gymdeithas, sy'n aml yn uno pobl, yn ôl Dr Burrell ni fu llawer o sgwrsio am anghydraddoldeb rhwng y rhywiau ac agweddau rhywiaethol a pha mor arferol yw hynny mewn stadiwm bêl-droed, stadiwm chwaraeon neu mewn ystafell newid. Aeth ymlaen i ddweud bod gan chwaraeon ffordd bell i fynd yn hynny o beth.[129]

**128.** Pwysleisiodd Comisiynydd yr Heddlu a Throseddu De Cymru, Alun Michael, bwysigrwydd modelau rôl positif ar gyfer plant a phobl ifanc, yn enwedig mewn amgylcheddau lle mai dynion sydd yno'n bennaf, fel clybiau chwaraeon. Dywedodd:

> *"It is even more important for potentially isolated children and young people, who may have access to fewer positive role models and messaging, and whose peer networks may leave them vulnerable to negative external influences and stereotypes."*

**129.** Cydnabu Chwaraeon Cymru fod gan chwaraeon ran i'w chwarae wrth atal trais ar sail rhywedd, gan ddweud mai datblygu system chwaraeon gynhwysol yw prif ffocws y sefydliad. Dywedodd wrthym fod Chwaraeon Cymru wedi creu

[129] Y Pwyllgor Cydraddoldeb a Chyfiawnder Cymdeithasol, 12 Mehefin 2023, Cofnod y Trafodion, paragraff 81

partneriaeth â'r NSPCC ac Ymddiriedolaeth Ann Craft i ddatblygu ystod o adnoddau, hyfforddiant a chanllawiau a chyfeiriodd at ymgyrchoedd diweddar fel 'Cadw eich plentyn yn ddiogel mewn chwaraeon' a 'Gwrandewch, Siaradwch', fel gweithgareddau sy'n cefnogi'r weledigaeth hon.[130]

**130.** Cydnabu Cymdeithas Bêl-droed Cymru hefyd rym a dylanwad pêl-droed mewn perthynas â materion cymdeithasol, a thynnodd sylw at waith ymgyrchu'r Gymdeithas gyda'r nod o fynd i'r afael â chasineb at fenywod a herio ymddygiadau gwenwynig. Soniodd y Gymdeithas hefyd am y camau a gymerwyd i sicrhau bod pobl yn teimlo'n ddiogel mewn gemau, sy'n cynnwys darparu gwybodaeth i gefnogwyr ar sut i adrodd am unrhyw ddigwyddiadau'n ymwneud â gwahaniaethu neu bryderon diogelwch.[131]

**131.** Dywedodd Dr Eisenstadt wrthym fod chwaraeon yn her yn ogystal â chyfle:

> *"It's a challenge because we know about the locker room cultures and the harmful behaviours that go on in and around sport. And it's a huge opportunity because of the role that sports players play as leaders, coaches, role models—not exclusively, but particularly, for men and boys."*

**132.** Cytunodd Dr Burrell y gall chwaraeon chwarae rhan gadarnhaol oherwydd ei ddylanwad ar gefnogwyr, gwylwyr a chwaraewyr.[132]

**133.** Dywedodd Dr Fenton fod ei gwerthusiad o waith sydd wedi ei wneud gyda chlwb pêl-droed i annog pobl sy'n dyst i drais ar sail rhywedd i godi llais wedi arwain at ganlyniadau sylweddol, gan gynnwys newidiadau enfawr yn agweddau a chredoau pobl ac ymddygiad y rhai sy'n dyst i drais o'r cyfnod cyn yr ymgyrch o'i gymharu â'r cyfnod ar ôl yr ymgyrch. Ychwanegodd fod tystiolaeth bendant y gall hyn weithio.[133]

**134.** Dywedodd Dr Fenton wrth y Pwyllgor y gallai rhaglen Llywodraeth Cymru ar gyfer ymyrraeth ragweithiol gan y rhai sy'n dyst i drais weithio os yw'r Llywodraeth yn cyfathrebu ac yn ymgyrchu'n iawn:

---

[130] Llythyr gan Chwaraeon Cymru, 11 Gorffennaf 2023
[131] Llythyr gan Gymdeithas Bel-droed Cymru, 4 Hydref 2023
[132] Y Pwyllgor Cydraddoldeb a Chyfiawnder Cymdeithasol, 12 Mehefin 2023, Cofnod y Trafodion, paragraff 81
[133] Y Pwyllgor Cydraddoldeb a Chyfiawnder Cymdeithasol, 12 Mehefin 2023, Cofnod y Trafodion, paragraff 246

> *"What I would really like to see, as the Welsh Government goes forward with its bystander programmes, is real leverage and, I guess, real comms and campaigning that makes corporates and really influential places like football clubs and rugby clubs, particularly in Wales, want to get on board, where they start to be perceived as being not on board if they're not doing it."*[134]

**135.** Ychwanegodd Dr Fenton y gall modelau rôl chwarae rhan enfawr yn hyn o beth, gan awgrymu y gallai Llywodraeth Cymru ddefnyddio pobl enwog ym maes chwaraeon i gefnogi ymgyrch gyhoeddus fawr ac i hyrwyddo ei negeseuon. Eglurodd nad oes rhaid iddo fod yn orfodol, ond mae'n rhaid rhoi clochdar ein bod ni'n lansio rhywbeth mawr yng Nghymru sy'n gwneud i bawb fod eisiau newid ei ymddygiad. Ychwanegodd Dr Burrell:

> *"We put a lot of focus on the players, but what about all these powerful people in boardrooms who are invariably men in the sporting world and who have a lot of resources and power but aren't really talking about these issues."*[135]

**136.** Roedd Ann-Marie Lawrence o Plan International UK yn cytuno:

> *"It's up to the leadership of sport to set the culture and the tone for what happens within their sports and the areas that they control, and there needs to be a level of accountability, to ensure that our governing bodies and our sporting bodies in Wales are held accountable to setting the right culture within their organisations."*[136]

## Ymgyrchoedd codi ymwybyddiaeth

**137.** Er bod rhai aelodau o'n Grŵp Cynghori yn siarad yn bositif ynghylch effeithiolrwydd ymgyrchoedd codi ymwybyddiaeth, roedd pryderon ynghylch ymgyrchoedd cymharol fyr. Roeddent yn dadlau, er mwyn cynnal momentwm ac ymgorffori negeseuon allweddol yn ymwybyddiaeth y cyhoedd, fod angen i ymgyrchoedd fod yn hwy.

[134] Y Pwyllgor Cydraddoldeb a Chyfiawnder Cymdeithasol, 12 Mehefin 2023, Cofnod y Trafodion, paragraff 248
[135] Y Pwyllgor Cydraddoldeb a Chyfiawnder Cymdeithasol, 12 Mehefin 2023, Cofnod y Trafodion, paragraff 82
[136] Y Pwyllgor Cydraddoldeb a Chyfiawnder Cymdeithasol, 12 Mehefin 2023, Cofnod y Trafodion, paragraff 84

**138.** Dywedodd Lara Snowdon o ICC fod angen cynyddu pa mor amlwg yn gyffredinol yw negeseuon atal trais yn erbyn menywod, cam-drin domestig a thrais rhywiol o fewn y boblogaeth er mwyn cyflawni newid ymhlith y boblogaeth gyfan.[137]

**139.** Nododd Plan International UK y gall ymgyrchoedd gwybodaeth gyhoeddus weithio'n well o'u cyfuno ag ymyriadau eraill mwy uniongyrchol:

> *"Evaluations show that these types of campaigns can raise awareness and influence attitudes, but on their own they are unlikely to change behaviour. Instead, researchers recommend using awareness raising campaigns as part of a wider multicomponent intervention with other activities designed to change behaviour."*[138]

## Ein barn ni

Gall chwaraeon fod yn ddylanwad grymus ar normau cymdeithasol a diwylliant. Cawsom ein calonogi gan enghreifftiau o gydweithio gan gynnwys gan Gymdeithas Bêl-droed Cymru a Llywodraeth Cymru yn cydweithio ar ymgyrchoedd i fynd i'r afael â chasineb at fenywod ac agweddau rhywiaethol.[139]

Mae angen inni gynyddu pa mor amlwg yn gyffredinol yw'r negeseuon hyn, a dylai Llywodraeth Cymru ystyried ariannu ymgyrch ymwybyddiaeth gyhoeddus ledled y wlad gyda model rôl gwrywaidd enwog iawn a all ysbrydoli dynion a bechgyn eraill i wneud safiad yn erbyn trais a hyrwyddo gwerthoedd ac ymddygiadau cadarnhaol. Bydd sicrhau bod y person hwn yn wybodus am y mater ac yn derbyn hyfforddiant priodol i gyfathrebu ac eirioli newid yn effeithiol yn hollbwysig. Fel rhan o hyn, dylid cynnal gwerthusiad o'r effaith.

**Argymhelliad 10.** Dylai Llywodraeth Cymru ystyried ariannu ymgyrch ymwybyddiaeth gyhoeddus ledled y wlad gyda model rôl gwrywaidd enwog iawn a all ysbrydoli dynion a bechgyn eraill i wneud safiad yn erbyn trais a hyrwyddo gwerthoedd ac ymddygiadau cadarnhaol. Mae'n bwysig sicrhau bod y person hwn yn wybodus am y mater ac yn cael hyfforddiant priodol i gyfathrebu ac eirioli

[137] Y Pwyllgor Cydraddoldeb a Chyfiawnder Cymdeithasol, 22 Mai 2023, Cofnod y Trafodion, paragraff 51
[138] Plan International UK, tystiolaeth ysgrifenedig
[139] Gohebiaeth gan Gymdeithas Bel-droed Cymru – 4 Hydref 2023

dros newid yn effeithiol. Dylid cynnal gwerthusiad o'r effaith ar ddiwedd yr ymgyrch.

## Rhaglenni ar gyfer cyflawnwyr trais

**140.** Yn ôl Dr Eisenstadt mae tystiolaeth addawol ynglŷn ag effeithiolrwydd rhaglenni ar gyfer y rhai sy'n cyflawni trais, a all leihau ymddygiad treisgar a chamdriniaeth, a chynyddu teimladau o ddiogelwch i'r rhai sydd wedi dioddef.[140]

**141.** Nododd y Dirprwy Gomisiynydd Heddlu a Throseddu Emma Wools fod tystiolaeth gref ar gyfer rhaglenni cyflawnwyr fel rhan o ddull iechyd y cyhoedd o atal trais yn erbyn menywod, cam-drin domestig a thrais rhywiol. Aeth ymlaen i ddweud y dylai'r rhaglenni hyn fodoli ar bob un o'r tair haen o weithgarwch atal ac y dylai'r Glasbrint sicrhau bod trefniadau comisiynu effeithiol a chynaliadwy ar waith.[141]

**142.** I'r gwrthwyneb, nid oedd gan ein Grŵp Cynghori hyder mewn rhaglenni i'r rhai sy'n cyflawni trais gan godi pryderon ynghylch eu heffeithiolrwydd a'u hygrededd.

**143.** Rhybuddiodd Dr Eisenstadt nad yw rhai sefydliadau yn dilyn y sylfaen dystiolaeth, sydd, meddai, yn hanfodol i effeithiolrwydd a diogelwch y rhaglenni. Ychwanegodd y gall rhywun ddod yn hwylusydd rhaglen ar gyfer cyflawnwyr cam-drin domestig gydag ychydig iawn o hyfforddiant.[142]

**144.** Dywedodd Dr Eisenstadt ei bod yn anodd dweud sut olwg sydd ar raglen lwyddiannus ar gyfer cyflawnwyr trais. Cwestiynodd Dr Jen Daffin effeithiolrwydd rhai rhaglenni hefyd, gan esbonio nad ydynt yn aml yn mynd yn ddigon dwfn i fynd at wraidd rhywfaint o'r trawma a'r trallod sydd wedi digwydd.[143]

**145.** Fe wnaethom ofyn i gynrychiolwyr yr heddlu sut y maent yn cyfeirio'r cyflawnwyr at raglenni. Dywedodd Comisiynydd yr Heddlu a Throseddu Dyfed-Powys, Dafydd Llewelyn, fod lle i ddatblygu.[144] Dywedodd wrthym:

---

[140] Y Pwyllgor Cydraddoldeb a Chyfiawnder Cymdeithasol, 12 Mehefin 2023, Cofnod y Trafodion, paragraff 187
[141] Llythyr gan Emma Wools, Dirprwy Gomisiynydd yr Heddlu a Throseddu De Cymru, 25 Awst 2023
[142] Y Pwyllgor Cydraddoldeb a Chyfiawnder Cymdeithasol, 12 Mehefin 2023, Cofnod y Trafodion, paragraff 188
[143] Y Pwyllgor Cydraddoldeb a Chyfiawnder Cymdeithasol, 22 Mai 2023, Cofnod y Trafodion, paragraff 92
[144] Y Pwyllgor Cydraddoldeb a Chyfiawnder Cymdeithasol, 10 Gorffennaf 2023, Cofnod y Trafodion, paragraff 106

> *"We are, at the moment, prioritising victims and the support to survivors, but a greater proportion of funding needs to go into that prevention space around changing behaviours."*[145]

**146.** Darparodd Plismona yng Nghymru wybodaeth fanwl inni am raglenni cyflawnwyr ym mhob ardal heddlu a oedd yn amlygu bylchau ac anghysondebau yn argaeledd y rhaglenni. Nodwyd bod y galw am raglenni yn llawer mwy na'r cyllidebau sydd ar gael i Gomisiynwyr yr Heddlu a Throseddu, ac awgrymwyd bod argaeledd cyfyngedig darparwyr achrededig priodol, cyfraddau cwblhau isel a natur wirfoddol rhaglenni anstatudol oll yn cael effaith ar y ddarpariaeth.[146]

**147.** Dywedodd Plismona yng Nghymru y byddai datblygu dulliau cyffredin yn un o nodau allweddol ei Dasglu Trais yn Erbyn Menywod, Cam-drin Domestig a Thrais Rhywiol, ac y byddai'r gwaith hwn yn cynnwys rhaglenni i gyflawnwyr trais. Dywedodd y sefydliad hefyd y byddai newidiadau diweddar ym mholisi'r Weinyddiaeth Gyfiawnder yn caniatáu i heddluoedd fabwysiadu model CARA (Rhybuddio a Cham-drin mewn Perthnasoedd / *Cautioning and Relationships Abuse*), a ddylai arwain at arferion mwy cyffredin a gosod gofyniad ar gyflawnwyr i gymryd rhan.[147] Dywedodd Dirprwy Gomisiynydd yr Heddlu a Throseddu Emma Wools wrthym fod rhaglenni i gyflawnwyr yn ffrwd waith allweddol yn y Glasbrint:

> *"that's going to be very much a focus of activity, which is about how do we develop better referral mechanisms and response into a menu of perpetrator programmes—so, those from demonstrating very early harmful behaviours all the way through to some of the high-harm behaviour that we see coming through the court system and on statutory services."*[148]

**148.** Cadarnhaodd hefyd fod gwaith ar y gweill i fapio'r ddarpariaeth bresennol ac adolygu safonau ansawdd.[149]

**149.** Cydnabu'r Gweinidog yr heriau o ran darparu rhaglenni gwirfoddol ledled Cymru ar gyfer cyflawnwyr, ac ailadroddodd fod y ffrwd waith Delio â Chyflawnwyr

---

[145] Y Pwyllgor Cydraddoldeb a Chyfiawnder Cymdeithasol, 10 Gorffennaf 2023, Cofnod y Trafodion, paragraff 109

[146] Llythyr gan Plismona yng Nghymru at y Cadeirydd ynglŷn â rhaglenni cyflawnwyr - 17 Tachwedd 2023; Llythyr gan Emma Wools, Dirprwy Gomisiynydd yr Heddlu a Throseddu De Cymru, 13 Hydref 2023

[147] Llythyr gan Plismona yng Nghymru at y Cadeirydd ynglŷn â rhaglenni cyflawnwyr - 17 Tachwedd 2023

[148] Y Pwyllgor Cydraddoldeb a Chyfiawnder Cymdeithasol, 10 Gorffennaf 2023, Cofnod y Trafodion, paragraff 113

[149] Llythyr gan Emma Wools, Dirprwy Gomisiynydd yr Heddlu a Throseddu De Cymru, 25 Awst 2023

yn ceisio mapio'r holl wasanaethau perthnasol yng Nghymru, gan gynnwys eu partneriaethau atgyfeirio a'u ffrydiau ariannu. Nododd y Gweinidog ymhellach fod angen cydnabod y cyfyngiadau cyllidebol wrth geisio gwella ein gallu i ddelio ag achosion o drais yn erbyn menywod, cam-drin domestig a thrais rhywiol, ac atal y mathau hyn o drais. Dywedodd:

> *"Investing in early intervention and prevention activities in our communities will require a significant evidence base to inform our commissioning strategy and budget planning for the future."*[150]

**Rhaglen 'Driving Change': mesurau atal ar waith**

**150.** Ar ôl methu â chanfod rhaglen i gyflawnwyr yn ystod y gwaith mapio cychwynnol, fe wnaeth Cyngor Caerdydd gomisiynu Merthyr Tudful Ddiogelach i ddatblygu rhaglen gyflawn ac achrededig i gyflawnwyr cam-drin domestig o'r enw 'Driving Change'. Fe wnaethom gyfarfod â staff a chleientiaid y prosiect 'Driving Change' yng Nghaerdydd.

**151.** Cafodd 'Driving Change' ei fodelu ar waith Paul Wolf-Light o brosiect Ahimsa yn Plymouth, ac mae'n fodel ymyrraeth ddwys sy'n cymryd o leiaf chwe mis i'w gwblhau. Mae'n rhaglen ar gyfer cyflawnwyr risg safonol/canolig oedolion gwrywaidd sy'n cyflawni trais a cham-drin domestig heb unrhyw gysylltiad â'r system cyfiawnder troseddol.

**152.** Nod 'Driving Change' yw sicrhau a chynnal diogelwch a llesiant menywod a phlant. Mae hefyd yn anelu at gefnogi dynion sydd wedi cam-drin i roi'r gorau i'w hymddygiad niweidiol a datblygu perthnasoedd ac agweddau mwy cyfrifol, parchus a chariadus gydag eraill a thuag at eraill.

**153.** Er mwyn bod yn gymwys i gael eu hystyried ar gyfer y rhaglen, rhaid i gleientiaid:

- ddangos cydnabyddiaeth sylfaenol eu bod yn ymddwyn mewn ffordd dreisgar a difrïol yn eu perthnasoedd a dangos lefel o gymhelliant i newid hyn.
- derbyn cyfrifoldeb llawn am eu hymddygiad a'u gweithredoedd eu hunain.

[150] Llythyr gan y Gweinidog Cyfiawnder Cymdeithasol a'r Prif Chwip, 19 Hydref

- ymrwymo i'r gwaith personol sydd ei angen, a gwneud y gwaith personol hwnnw, gan gynnwys presenoldeb rheolaidd mewn sesiynau

**154.** Dywedodd rhywun sy'n cymryd rhan yn rhaglen 'Driving Change' wrthym:

> *"A lot of the things we talk about is taking responsibility. Making the change because no one else can do it for you. Whether that's a change in your behaviour or a change in your mindset. [...] It's more than just a group where we talk about behaviour towards others . . . It's a group of talking about emotions, how they affect us . . . It's so much deeper than I expected it to be. It's designed to make a lasting change."*

## Ein barn ni

Roeddem yn ddiolchgar ein bod wedi cael y cyfle i ymweld â rhaglen i gyflawnwyr a chwrdd â rhai o'r bobl a oedd yn elwa ohoni. Roedd gan y rhaglen y gwnaethom ei gweld sawl elfen yr oedd yn galonogol inni eu gweld gan gynnwys staff sydd â phrofiad proffesiynol sylweddol a dull gweithredu sy'n seiliedig ar dystiolaeth.

Mae mynd i'r afael â thrais ar sail rhywedd yn golygu mynd i'r afael ag agweddau dwfn sy'n ymwneud â phŵer a rheolaeth, a gall fod yn heriol mynd i'r afael â'r hyn sydd wrth wraidd trais megis trawma sydd heb ei ddatrys. Felly roedd yn destun pryder inni weld y diffyg cysondeb o ran y ffordd y darperir y rhaglenni hyn i gyflawnwyr ledled Cymru yn gyffredinol, gan gynnwys sut y rhoddir cyhoeddusrwydd iddynt a sut y gwneir atgyfeiriadau. Credwn, o dan yr amgylchiadau cywir, y dylai dynion sydd wedi ymrwymo'n wirioneddol i newid, sydd wedi cydnabod a chyfaddef eu hymddygiad o gam-drin, gael y cyfle i elwa ar raglenni o ansawdd da ar gyfer cyflawnwyr. Mae'n hanfodol felly bod rhaglenni i gyflawnwyr yn seiliedig ar dystiolaeth; bod eu hansawdd a'u heffeithiolrwydd yn cael eu monitro; a bod yr hwyluswyr yn gymwys i gynnal y rhaglen.

Dylai Llywodraeth Cymru, drwy ei ffrwd waith i gyflawnwyr trais, gynnal adolygiad cyflym o'r rhaglenni i gyflawnwyr sydd ar gael yng Nghymru. Dylai'r adolygiad cyflym anelu at roi sicrwydd i ddioddefwyr ac eraill bod pob rhaglen yn ystyried eu diogelwch ac yn gallu dangos tystiolaeth o adsefydlu effeithiol. Dylai hefyd ystyried gwahanol ffactorau diwylliannol a chyd-destunol a all ddylanwadu ar

effeithiolrwydd rhaglenni i gyflawnwyr. Dylid cwblhau'r adolygiad cyflym o fewn y chwe mis nesaf a heb fod yn hwyrach na Mehefin 2024.

**Argymhelliad 11.** Dylai Llywodraeth Cymru, drwy ei ffrwd waith i gyflawnwyr, gynnal adolygiad cyflym o'r rhaglenni i gyflawnwyr sydd wedi eu llunio i atal trais ar sail rhywedd, ac sydd ar gael ledled Cymru. Dylai'r adolygiad anelu at roi sicrwydd i ddioddefwyr ac eraill bod pob rhaglen yn ystyried eu diogelwch ac yn gallu dangos tystiolaeth o adsefydlu effeithiol. Dylai hefyd ystyried gwahanol ffactorau diwylliannol a chyd-destunol a all ddylanwadu ar effeithiolrwydd rhaglenni i gyflawnwyr. Dylid cwblhau'r adolygiad cyflym erbyn mis Mehefin 2024.

## Modelu ymddygiadau a diwylliant sefydliadol

**155.** Cyflwynodd y Grŵp Cynghori enghreifftiau lle roeddent yn teimlo bod gwasanaethau cyhoeddus a sefydliadau wedi methu ag ymateb yn ddigonol i drais ar sail rhywedd – boed yn aflonyddu rhywiol, cam-drin domestig, neu drais rhywiol. Roedd rhai o'r menywod yn y Grŵp wedi colli hyder yn yr asiantaethau yr oeddent yn credu eu bod yno i'w cefnogi.

**156.** Clywsom fod y diwylliant cyffredinol o fewn sefydliadau yn bwysig wrth bennu disgwyliadau.[151]

**157.** Fe wnaethom ofyn i Gymdeithas Llywodraeth Leol Cymru (CLlLC) a Byrddau ac Ymddiriedolaethau Iechyd Cymru nodi pa weithdrefnau sydd ganddynt ar waith ar gyfer ymdrin â honiadau o drais ar sail rhywedd a godir gan neu yn erbyn cyflogeion.[152] Rhoddwyd enghreifftiau inni o'u dulliau unigol a'u canllawiau ar gyfer gweithwyr.

**158.** Roedd y Gweinidog yn cytuno ei bod yn hanfodol bod Llywodraeth Cymru yn dangos esiampl dda, gan nodi:

> *"The Welsh Government is White Ribbon accredited and our Permanent Secretary, Andrew Goodall, and Chief Operating Officer, Tim Moss, are proud White Ribbon Ambassadors, leading an enthusiastic and committed group of ambassadors*

[151] Tystiolaeth ysgrifenedig, Plismona yng Nghymru
[152] Llythyr at Gymdeithas Llywodraeth Leol Cymru, 7 Awst 2023; Llythyr at Fyrddau Iechyd Lleol Cymru ac Ymddiriedolaethau'r GIG, 9 Awst 2023

*and champions in raising awareness across the organisation and exemplifying the campaign's messages."*[153]

## Ein barn ni

Mae'r ymchwiliad hwn wedi tanlinellu'r rôl sydd gennym i'w chwarae wrth atal trais ar sail rhywedd, drwy hyrwyddo hawliau menywod a chydraddoldeb rhwng y rhywiau. Mae'n gywir mai Llywodraeth Cymru sy'n arwain y newid hwnnw ac mae'n bwysig cydnabod y dylanwad a'r cyrhaeddiad sydd ganddi o ran pennu cywair cyffredinol y dull gweithredu ar gyfer y mater hwn. Fodd bynnag, credwn yn gryf fod gan bob un ohonom gyfrifoldeb ar y cyd i hyrwyddo'r agenda hon ac y dylem ymdrechu i sicrhau ein bod yn modelu'r ymddygiad yr ydym yn galw amdano: ni ddylai unrhyw newid gael ei wneud amdanaf fi, hebof fi. Mae ein hargymhelliad olaf felly ar ein cyfer ni ein hunain fel Aelodau a etholwyd yn ddemocrataidd. O ystyried y rôl y mae Aelodau'r Senedd yn ei chwarae a'n cysylltiadau â chymunedau lleol ac etholwyr, rydym yn argymell bod holl Aelodau'r Senedd yn ymrwymo i gael hyfforddiant ar atal trais ar sail rhywedd erbyn diwedd 2024. Ochr yn ochr â hynny, dylid annog staff cymorth Aelodau'r Senedd a staff Comisiwn y Senedd drwy'r sianeli priodol i ymgymryd â hyfforddiant o'r fath, a byddwn yn crybwyll hyn mewn gohebiaeth at y partïon priodol. Ac yn olaf, dylai Llywodraeth Cymru weithio gydag awdurdodau lleol i sicrhau bod cynrychiolwyr lleol yn cael mynediad at hyfforddiant ac adnoddau tebyg.

Dylai'r hyfforddiant hwn gael ei ddarparu gan ddarparwr sy'n dilyn arfer gorau a dylai gydnabod y normau a'r arferion diwylliannol sy'n golygu bod trais ar sail rhywedd yn dal i ddigwydd a mynd i'r afael â hyn, gan barchu amrywiaeth ddiwylliannol ar yr un pryd.

**Argymhelliad 12.** Dylai pob Aelod o'r Senedd ymrwymo i gwblhau hyfforddiant ar atal trais ar sail rhywedd erbyn diwedd 2024. Yn ogystal â'r ymrwymiad hwn, dylid annog staff cymorth Aelodau'r Senedd a staff Comisiwn y Senedd drwy'r sianeli priodol i ymgymryd â hyfforddiant o'r fath.

Dylid ceisio'r hyfforddiant hwn gan ddarparwr arfer gorau, a dylid ceisio mynd i'r afael â normau diwylliannol ac arferion sy'n golygu bod trais ar sail rhywedd yn dal i ddigwydd, gan barchu amrywiaeth ddiwylliannol ar yr un pryd.

[153] Llythyr gan y Gweinidog Cyfiawnder Cymdeithasol a'r Prif Chwip, 19 Hydref

Cam Gweithredu 8: Dylai Llywodraeth Cymru weithio gydag awdurdodau lleol a/neu Gymdeithas Llywodraeth Leol Cymru i sicrhau bod gan gynghorwyr lleol fynediad i hyfforddiant ac adnoddau tebyg o ran delio â thrais ar sail rhywedd a dylai adrodd yn ôl ar hynny erbyn diwedd 2024.

# Atodiad 1: Rhestr o'r sesiynau tystiolaeth lafar

Rhoddodd y tystion a ganlyn dystiolaeth lafar i'r Pwyllgor ar y dyddiadau a nodir isod. Gellir gweld trawsgrifiadau o'r holl sesiynau tystiolaeth lafar ar wefan y Pwyllgor.

| Dyddiad | Enw a Sefydliad |
|---|---|
| **22 Mai 2023** | **Lara Snowdon,**<br>Uned Atal Trais, Iechyd Cyhoeddus Cymru<br>**Dr Jen Daffin,**<br>Seicolegwyr dros Newid Cymdeithasol<br>**Oliver Townsend,**<br>Platfform<br>**Yasmin Khan,**<br>Cynghorydd Cenedlaethol ar Drais yn Erbyn Menywod, Cam-drin Domestig a Thrais Rhywiol<br>**Johanna Robinson,**<br>Cynghorydd Cenedlaethol ar Drais yn Erbyn Menywod, Cam-drin Domestig a Thrais Rhywiol |
| **12 Mehefin 2023** | **Anne-Marie Lawrence,**<br>Plan International UK<br>**Dr Stephen Burrell,**<br>Prifysgol Durham<br>**Dr Rachel Fenton,**<br>Prifysgol Caerwysg<br>**Dr Nathan Eisenstadt,**<br>Prifysgol Bryste |
| **19 Mehefin 2023** | **Bethan Pell,**<br>Y Rhwydwaith Ymchwil Iechyd mewn Ysgolion<br>**Dr Honor Young,**<br>Y Rhwydwaith Ymchwil Iechyd mewn Ysgolion<br>**Alexa Gainsbury,**<br>Iechyd Cyhoeddus Cymru<br>**Emily van de Venter,**<br>Iechyd Cyhoeddus Cymru |

| Dyddiad | Enw a Sefydliad |
|---|---|
| **10 Gorffennaf 2023** | **Dafydd Llewelyn,**<br>Comisiynydd Heddlu a Throseddu Dyfed-Powys<br>**Emma Wools,**<br>Dirprwy Gomisiynydd Heddlu a Throseddu De Cymru<br>**Amanda Blakeman,**<br>Prif Gwnstabl, Heddlu Gogledd Cymru |
| **11 Medi 2023** | **Eluned Morgan AS, Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol**<br>Llywodraeth Cymru<br>**Julie Morgan AS, Dirprwy Weinidog Gwasanaethau Cymdeithasol**<br>Llywodraeth Cymru<br>**Jeremy Miles AS, Gweinidog y Gymraeg ac Addysg**<br>Llywodraeth Cymru |
| **18 Medi 2023** | **Jane Hutt AS, Gweinidog Cyfiawnder Cymdeithasol a'r Prif Chwip**<br>Llywodraeth Cymru |

# Atodiad 2: Rhestr o'r dystiolaeth ysgrifenedig

Rhoddodd y bobl a'r sefydliadau a ganlyn dtystiolaeth ysgrifenedig i'r Pwyllgor. Gellir gweld yr holl ymatebion i'r ymgynghoriad a gwybodaeth ysgrifenedig ychwanegol ar wefan y Pwyllgor.

| Cyfeirnod | Sefydliad |
|---|---|
| **PGBV 01** | Estyn (Saesneg yn unig) |
| **PGBV 02** | NSPCC Cymru (Saesneg yn unig) |
| **PGBV 03** | Comisiynydd Pobl Hŷn Cymru |
| **PBGV 04** | Coleg Brenhinol Meddygon Teulu Cymru (Saesneg yn unig) |
| **PGBV 05** | Iechyd Cyhoeddus Cymru (Saesneg yn unig) |
| **PGBV 06** | Cymorth i Ferched Cymru (Saesneg yn unig) |
| **PGBV 07** | Plismona yng Nghymru (Saesneg yn unig) |
| **PGBV 08** | Barnardo's Cymru (Saesneg yn unig) |
| **PGBV 09** | Natalie A. Russel a Dr Lora Adair, Prifysgol Brunel Llundain (Saesneg yn unig) |
| **PGBV 10** | Pwyllgor Trais yn Erbyn Menywod a Merched y Bwrdd Cenedlaethol Menywod Catholig (Saesneg yn unig) |
| **PGBV 11** | Dr Edith England, Prifysgol Metropolitan Caerdydd a Dr Josie Henley, Prifysgol Caerdydd (Saesneg yn unig) |
| **PGBV 12** | Cymdeithas Seicolegol Prydain (Saesneg yn unig) |
| **PGBV 13** | Prifysgol Nottingham Trent (Saesneg yn unig) |
| **PGBV 14** | Anabledd Dysgu Cymru (Saesneg yn unig) |
| **PGBV 15** | Coleg Brenhinol y Seiciatryddion a Chanolfan Gweithredu Iechyd Meddwl y Cyhoedd (Saesneg yn unig) |
| **PGBV 16** | Plan International UK (Saesneg yn unig) |
| **PGBV 17** | Dr Claire Fox a Dr Caroline Miles, Prifysgol Manceinion (Saesneg yn unig) |
| **PGBV 18** | Cynghorwyr Cenedlaethol ar gyfer Trais yn erbyn Menywod, Cam-drin Domestig a Thrais Rhywiol (Saesneg yn unig) |

| Cyfeirnod | Sefydliad |
|---|---|
| **PGBV 19** | Dr Stephen Burrell, Prifysgol Durham (Saesneg yn unig) |
| **PGBV 20** | Seicolegwyr dros Newid Cymdeithasol Cymru (Saesneg yn unig) |
| **PGBV 21** | Platfform (Saesneg yn unig) |

## Gwybodaeth ychwanegol

| Teitl | Dyddiad |
|---|---|
| Nodyn ar gyfarfod cyntaf y grŵp cynghori | Mehefin 2023 |
| Nodyn ar ail gyfarfod y grŵp cynghori | Medi 2023 |
| Uned Atal Trais Cymru - tystiolaeth ychwanegol (Saesneg yn unig) | Mai 2023 |
| Y Rhwydwaith Ymchwil Iechyd Mewn Ysgolion, DECIPHer - tystiolaeth ychwanegol (Saesneg yn unig) | Mehefin 2023 |
| Surviving Economic Abuse – tystiolaeth ychwanegol (Saesneg yn unig) | Mehefin 2023 |
| Platfform – tystiolaeth ychwanegol (Saesneg yn unig) | Gorffennaf 2023 |
| Royal College for General Practitioners - tystiolaeth ychwanegol (Saesneg yn unig) | Awst 2023 |
| Lloyds Banking Group - tystiolaeth ychwanegol (Saesneg yn unig) | Mehefin 2023 |
| Dr Rachel Fenton ar sut mae prifysgolion Prydain yn herio trais ac aflonyddu rhywiol ar y campws - tystiolaeth ychwanegol (Saesneg yn unig) | Mehefin 2023 |